
# Adolygiad Perfformiad Blynyddol

2015/16




City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad - Stori Abertawe | Tudalen 3 |
| Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol | Tudalen 14 |
| Rhan 2 – Crynodeb o werthusiadau i gyflawni blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer 2015/16 | Tudalen 15 |
| **Diogelu Pobl Ddiamddiffyn** | Tudalen 16 |
| **Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion** | Tudalen 21 |
| **Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid** | Tudalen 25 |
| **Trechu Tlodi** | Tudalen 31 |
| **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy** | Tudalen 36 |
| Rhan 3 – Gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn 2014/15 | Tudalen 43 |
| Rhan 4 – Gwybodaeth am berfformiad a'r defnydd ohoni | Tudalen 57 |
| Ble i gael mwy o wybodaeth | Tudalen 68 |

## Cyflwyniad - Stori Abertawe

*Dinas Llawn Cyfleoedd*
Mae Abertawe wedi bod yn ddinas llawn cyfleoedd, dyheadau ac uchelgeisiau erioed. O gynhyrchu gwlân yn yr Oesoedd Canol i fod yn ganolfan gopr fyd-eang yn y 18$^{fed}$ a'r 19$^{eg}$ ganrif, mae Abertawe bellach yn ddinas flaengar ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg. Mae Abertawe wedi cynnig cartref i syniadau, arloesedd ac entrepreneuriaeth erioed.

Heddiw, rydym hefyd yn enwog am ein treftadaeth lenyddol a diwylliannol, ein pêl-droed Uwch-gynghrair, ein traethau a'n cefn gwlad o safon ryngwladol a'n croeso cynnes. Rydym yn manteisio ar ein cryfderau creadigol, yn adeiladu arnynt gyda'n partneriaid ac yn gweithio gyda'n cymunedau fel ein bod yn gallu cyflwyno'n hunain i'r byd fel dinas falch, hyderus ac uchelgeisiol sy'n cefnogi tegwch, dyheadau a chyfleoedd.

*Dinas sy'n Gofalu*
Rydym yn blaenoriaethu trigolion Abertawe. Maent yn gwneud ein dinas yn unigryw. Rydym yn meithrin ein plant, yn diogelu pobl ddiamddiffyn ac yn cynnig cymorth i'r rhai bregus gan mai dyna yw'r peth cywir a'r peth moesol i'w wneud. Rydym yn rhan o'r rhwydwaith Dinasoedd Iach sy'n hybu iechyd da ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yn ein cymunedau.

Mae ein dinas yn weithgar, yn ofalgar, yn gosmopolitaidd ac yn uchelgeisiol. Mae ein cymunedau'n siarad dros 100 o ieithoedd ac rydym yn falch o'n hamrywiaeth diwylliannol a'n cydlyniant cymunedol. Rydym yn falch y gallwn groesawu'r bobl hynny o bedwar ban byd sy'n gweld ein dinas fel rhywle llawn gobaith, sy'n noddfa o gasineb neu erledigaeth.

Gyda'n cymunedau, rydym yn trechu tlodi, yn hyrwyddo dysgu ac yn cefnogi'n holl breswylwyr i wneud y mwyaf o'u doniau er mwyn iddynt allu byw bywydau annibynnol, hapus, iach a diogel.

*Dinas Arloesedd*
Rydym yn ddinas arloesedd a menter, a hynny o ran cyfiawnder cymdeithasol yn ogystal â mewn busnes. Abertawe oedd prifddinas cynhyrchu copr y byd, yma cafwyd y rheilffordd gyntaf i gludo teithwyr, mae'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU ac mae'n gartref i ddyfeisiadau megis y gell danwydd a tharmac.

Cyngor Abertawe oedd y cyntaf ym Mhrydain i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith a ni oedd y Ddinas Noddfa gyntaf.

Mae ysbryd arloesedd, dyfeisgarwch a thegwch wrth wraidd ein gweledigaeth ar gyfer Abertawe fel canolbwynt economaidd cynaliadwy yn ne-orllewin Cymru. Drwy weithio gyda'r ddwy brifysgol, y sector preifat, y llywodraeth a phartneriaid y trydydd sector, byddwn yn gweld Abertawe'n hybu ffyniant economaidd mewn dinas-ranbarth sy'n enwog am hyblygrwydd ei weithlu, ei amgylchedd naturiol trawiadol a chyfoeth ei syniadau.

*Dinas i fod yn Falch Ohoni*
'Swansea is the best place' - Dylan Thomas ysgrifennodd y frawddeg hon ac rydym ninnau'n falch o'i dweud. Rydym yn falch oherwydd rydym yn ddinas sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn adnewyddu ei hun ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ddinas lle mae plant a'u dyfodol o bwys, lle caiff pobl hŷn eu cefnogi, lle mae addysg yn werthfawr a lle mae trechu tlodi a herio anghydraddoldeb iechyd yn cael yr un sylw â chreu economi lewyrchus, cymunedau cynaliadwy a mwynhau ein hamgylchedd naturiol ardderchog.

Rydym yn cefnogi tegwch, dyheadau a chyfleoedd.

Rydym yn falch oherwydd ni yw Abertawe.

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn y blynyddoedd diwethaf

Mae Abertawe wedi cyflawni llawer yn y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Abertawe oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y DU i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n dangos ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc.

- Rhoi Safon Abertawe ar waith sy'n canolbwyntio ar y cyngor a bod ein staff yn darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid.

- Enwyd Abertawe fel Dinas Dysgu UNESCO y DU ac mae wedi mabwysiadu sgiliau entrepreneuraidd fel ei ffocws allweddol ac mae wedi llofnodi Datganiad Beijing ar gyfer Dinas Dysgu.

- Gweithio gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru i lansio'r Dinas-ranbarth ac mae strategaeth wedi cael ei mabwysiadu i ddenu buddsoddiadau ac i greu'r amodau cywir ar gyfer swyddi, busnesau a chyfoeth.

- Lansio adolygiad o ganol y ddinas, sy'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a'u cynnwys i helpu i lywio strategaeth datblygu'r dyfodol a chefnogi ceisiadau am arian yn y dyfodol.

- Cwblhau Strategaeth Trechu Tlodi a datblygu Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe i helpu i ymdopi â thlodi ac effeithiau tlodi.

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill drwy gynghorau de-orllewin Cymru a SWWITCH i bwyso ar y llywodraeth yn Llundain i ehangu trydaniad y brif reilffordd o Lundain i Abertawe.

- Cytuno ar strategaeth i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe yn ddiogel.

## Yr heriau sydd i ddod

Mae Abertawe'n wynebu sawl her yn y blynyddoedd sydd i ddod, sy'n cynnwys:

- Denu buddsoddiad economaidd.
- Adfywio canol dinas Abertawe a chymunedau ar draws Abertawe.
- Creu cyfleoedd cyflogi o safon.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd rhwng pobl sy'n byw mewn gwahanol gymunedau yn Abertawe.
- Pwysau demograffaidd a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus.
- Gostyngiadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus.

## Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i breswylwyr

Rydym am:

- **Ddiogelu Pobl Ddiamddiffyn** - er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed ac ecsbloetiaeth.
- **Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion** - fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd.
- **Creu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid** - fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg ffyniannus a fydd yn hybu ffyniant ein dinasyddion.
- **Trechu Tlodi** - er mwyn i bob person yn Abertawe allu cyflawni ei botensial.
- **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy** - fel bod lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt yn diwallu anghenion amrywiol preswylwyr presennol a rhai'r dyfodol.

Byddwn yn ymdrechu i wneud hyn drwy:

- Ganolbwyntio ar ddiwallu gofynion pobl a chyflawni amcanion.
- Gweithio gydag eraill pan fo'n fanteisiol ac yn ein helpu i ddiwallu anghenion pobl.
- Edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn cyflawni heriau, gwella gwasanaethau a'r ffordd rydym yn cynnig cymorth i bobl Abertawe.
- Rheoli pwysau gwario, lleihau costau a chyflawni gwasanaethau yn fwy effeithlon.
- Buddsoddi neu symud adnoddau i'n blaenoriaethau.
- Ymyrryd yn gynharach ac atal angen rhag cynyddu.
- Hyfforddi ein gweithwyr er mwyn iddynt allu cyflawni heriau yn y dyfodol, gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno a sut rydym yn cynnig cymorth.
- Sicrhau ein bod yn rhoi pwyslais ar gyflawni ein hymrwymiadau.

Ein **gweledigaeth** yw cael

# Abertawe fwy diogel, gwyrdd, call, teg, iach a chyfoethog

# Ein **Blaenoriaethau**

Rydym am i Abertawe fod yn lle mwy llewyrchus gyda phoblogaeth fedrus ac addysgedig, na chaiff ei nodweddu gymaint gan wrthgyferbyniadau ac eithafoedd tlodi. Rydym am wella lles fel bod cymunedau'n fwy diogel, yn iachach, yn fwy cydlynol a chadarn fel y gall pawb gyflawni ei botensial.

Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2015/17 yn nodi'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio'i gyflawni a sut byddwn yn mesur cynnydd. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol i bennu '**Amcanion Gwella**' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r 'Amcanion Lles' o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


Amlinellir ein pum blaenoriaeth allweddol isod.

- **Diogelu Pobl Ddiamddiffyn**
- **Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion**
- **Creu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid**
- **Trechu Tlodi**
- **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy**

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynrychioli amcanion trosgynnol y cyngor. Bydd rhai gwasanaethau'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn uniongyrchol. Bydd eraill yn gwneud cyfraniad naill ai ar eu pennau eu hunain neu drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill.

Nid yw'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys popeth rydym yn ei wneud. Mae'r cyngor yn darparu llawer o wasanaethau eraill sy'n bwysig ac y mae preswylwyr yn eu gwerthfawrogi, ond ni all bopeth fod yn flaenoriaeth. **Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i Abertawe.**

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, na ellir ystyried y blaenoriaethau hyn fel rhai sy'n gwbl amherthnasol i'w gilydd. Mae pob blaenoriaeth yn effeithio ar ein blaenoriaethau eraill. Er enghraifft, mae gwella cyrhaeddiad addysgol yn bwysig i'n hymdrechion i drechu tlodi ac i wella'r ddinas a'r economi.




Cyd-ddibyniaethau rhwng blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol.

# Ein **Gwerthoedd**

Caiff ein cynlluniau eu seilio ar dri gwerth clir a fydd yn arwain sut rydym yn gweithio, sut rydym yn datblygu fel sefydliad a'n penderfyniadau yn ystod y blynyddoedd nesaf.

### Ffocws ar Bobl

Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau cymunedau ac ar wella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Byddwn hefyd yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithwyr ac yn dangos y safonau uchaf o gywirdeb.

### Gweithio gyda'n Gilydd

Byddwn yn hyrwyddo ymagwedd partneriaeth gyfan, gan weithio ar draws gwasanaethau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwybodaeth a byddwn yn gweithio gydag eraill y tu allan i'r cyngor i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn cael y gwasanaethau gorau ar gyfer ein cymunedau.

### Arloesedd

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant blaengar. Byddwn yn meddwl ac yn gweithio'n wahanol i wella ein gallu i gyflawni ac i ymdopi â'r heriau ariannol, demograffig a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu.

Datblygir cynlluniau eglur ar draws yr holl wasanaethau yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r gwerthoedd hyn a sut y byddwn yn rhannu dysgu ar draws y cyngor fel rhan o'n Rhaglen Arloesedd.

# Ein **Hegwyddorion**

Bydd ein Cynlluniau a'n Blaenoriaethau yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol. Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau a chânt eu plethu drwy bopeth rydym yn ei wneud.

## Cynaladwyedd

Byddwn yn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Abertawe. Mae hyn yn golygu sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu dyheadau. Dyma'r egwyddor allweddol sydd wrth wraidd ein strategaeth Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol, sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'r cyngor, sicrhau hyfywedd ariannol y cyngor a gwella canlyniadau i breswylwyr. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i gynnwys a cheisio barn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Mae atal ac integreiddio wrth wraidd egwyddor cynaladwyedd a byddwn yn datblygu cynlluniau tymor hir er mwyn ymdrin â'n blaenoriaethau, gan weithio gydag eraill. Trwy'r ymagwedd hon, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

## Atal

Byddwn yn ymyrryd yn gynharach er mwyn cefnogi pobl sydd yn y perygl mwyaf, newid ymddygiad ac atal yr angen am wasanaethau arbenigol drud, gyda rhaglen gefnogi tymor hir yn aml. Bydd hyn yn helpu i wneud teuluoedd a chymunedau'n fwy gwydn, lleihau'r galw am wasanaethau'r cyngor, costau is a chyflawni gwell canlyniadau. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd cyngor gyfan at reoli'r galw am wasanaethau ac yn ymdrechu i wella ein dealltwriaeth o gyswllt cwsmeriaid a sut y gellir ailddylunio gwasanaethau er mwyn dileu, lleihau neu ddargyfeirio galw.

## Partneriaethau

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, busnes a gwirfoddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy ffyrdd cydweithredol eraill er mwyn wynebu'r heriau a rennir gan Abertawe a'i chymunedau. Byddwn yn rhoi ymagwedd 'Tîm Abertawe' ar waith, gan weithio fel cyngor cyfan er mwyn sicrhau y gall pob gwasanaeth wneud ei ran wrth gyfrannu at ein blaenoriaethau ac er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd. Er mwyn diwallu anghenion ein preswylwyr a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu Abertawe, mae'n rhaid cael partneriaethau cynhyrchiol, integreiddio ein gwasanaethau'n well a rhannu adnoddau.


Disgwylir i'r holl wasanaethau ddangos sut y defnyddir yr egwyddorion hyn fel rhan o'u cynllun busnes a sut maent yn cyflwyno gwasanaethau o ddydd i ddydd.

# Ein **Cyflawniad**


I ymdopi â'r heriau sy'n wynebu Abertawe ac i gyflawni ein blaenoriaethau, mae angen pwyslais clir ar adnoddau, cyflawni a gwella perfformiad. Mae hyn yn gofyn am raglen newid gref ac ymagwedd glir tuag at ariannu'r dyfodol, ein perthynas â chwsmeriaid a sut rydym yn rheoli ac yn cefnogi gweithwyr.

***Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol***

Nodir fframwaith strategol y cyngor ar gyfer y dyfodol yn ein strategaeth *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.* Mae'r strategaeth yn cynnwys pedair elfen allweddol:




Mae gan *Abertawe Gynaliadwy* 4 ffrwd waith ac 14 llinyn cyflwyno a fydd yn cyflawni'r newidiadau rydym yn gobeithio eu gweld i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol hwn:



**Ein Cyllid**
Mae cyllid llywodraeth ganolog wedi cael ei dorri dros y blynyddoedd diwethaf ac, yn seiliedig ar amcangyfrifon presennol, bydd y tuedd hwn yn parhau tan o leiaf 2020. Mae'r cyngor eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi lleihau uwch reolaeth draean.


Mae arwyddion blaenorol gan Lywodraeth Cymru yn nodi y dylai awdurdodau lleol barhau i gynllunio ar gyfer gostyngiad o 4.5% mewn grantiau bob blwyddyn. Bydd gostyngiadau yn dibynnu'n helaeth ar gyhoeddiadau'r Adolygiad Gwariant yn y dyfodol ynghyd â phwysau demograffaidd a gwasanaeth arall, y bwlch ariannu amcangyfrifiedig ar gyfer Cyngor Abertawe yw £36m ar gyfer 2016/17, gan godi i gyfanswm o tua £90m yn ystod y ddwy flynedd olynol.

Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn gost-effeithlon, byddwn yn adolygu pob maes gwariant. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau yn cynnwys pwysau gwariant o fewn eu cyllidebau dyranedig. Byddwn yn chwilio am ffyrdd i fod yn fwy effeithlon cyn torri gwasanaethau. Byddwn yn chwilio am ffyrdd blaengar i gynyddu ein hincwm. Byddwn yn ystyried modelau newydd a blaengar ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sut y gellir galluogi cymunedau i helpu eu hunain. Byddwn yn sicrhau y targedir adnoddau ar ardaloedd difreintiedig ac ar wasanaethau ataliol a rheoli galw.

**Ein Cwsmeriaid**
Ar wahân i'r heriau hyn, mae gan breswylwyr ddisgwyliadau rhesymol y bydd gwasanaethau'n gwella. Nid yw pobl yn hoffi ymagwedd sy'n 'addas i bawb' bellach. Maent am gael gwasanaethau sy'n gallu ymateb ac addasu i'w anghenion. Maent am gael mynediad i wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ac mewn ffyrdd sy'n fwy cyfleus iddynt. Byddwn yn symud cyswllt cwsmeriaid i byrth digidol hunanwasanaeth gan hyrwyddo cynhwysiad digidol. Byddwn yn cynnwys cwsmeriaid gan ddefnyddio eu syniadau a'u hadborth i wella gwasanaethau. Byddwn yn cyfuno ein gwasanaethau cwsmeriaid yn wasanaeth unigol a byddwn yn helpu cwsmeriaid i ddefnyddio'r dulliau cyswllt newydd. Ond mae'r heriau sydd o'n blaen hefyd yn gofyn am berthynas newydd rhwng preswylwyr a gwasanaethau cyhoeddus ac adlewyrchir hyn ym Mlaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy. Byddwn yn cefnogi preswylwyr, teuluoedd a chymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol a gwydn ac i wneud mwy o bethau drostynt eu hunain.

**Ein Gweithlu**
Mae gweithlu a diwylliant sefydliad yn hanfodol er mwyn cyflawni ein nodau a sicrhau llwyddiant cyffredinol. Bydd rhaid i'n gweithwyr weithio'n wahanol i wynebu ein heriau. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen eu cyfarparu â sgiliau ac ymagweddau newydd a'u hannog i gyflawni eu potensial. Byddwn yn ymgorffori ein gwerthoedd corfforaethol, grym, arloesedd a chyfrifoldeb personol i'r diwylliant sefydliadol er mwyn i ni allu gwella gwasanaethau a chanlyniadau. Rydym am i weithwyr fod yn ymwybodol o beryglon ond i beidio â rhwystro arloesedd. Rydym am gael sefydliad lle caiff meddwl blaengar ei alluogi, ei annog a'i wobrwyo. Rydym am gael sefydliad lle caiff gweithwyr eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a lle caiff llwyddiant ei wobrwyo. Rydym am gael sefydliad â diwylliant 'dim bai' a lle gwelir camgymeriadau fel cyfle i ddysgu ac i wella.

# Ein **Cynllun Corfforaethol ar dudalen**



## Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2015/16

Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau i wella'r hyn mae'n ei wneud a sut mae'n gwneud hynny. Roedd Cynllun Corfforaethol 2015/17 *Cyflawni dros Abertawe*, yn nodi blaenoriaethau allweddol y cyngor ('Amcanion Gwella') ar gyfer gwella a chyflawni.

Mae'r cynllun hefyd yn dangos sut mae blaenoriaethau'r cyngor yn cyfrannu at wella lles pobl yn Abertawe fel y nodir yng *Nghynllun Un Abertawe* ac mae'n cyflwyno'r ymrwymiadau polisi perthnasol a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Gorffennaf 2012.

Ein gweledigaeth yw Abertawe fwy diogel, gwyrdd, call, teg, iach a chyfoethog.

Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2015/17 yw hunanasesiad y cyngor o'i berfformiad ei hun wrth gyflawni ei flaenoriaethau fel y'u hamlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol.

**Beth yw strwythur Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2015/16?**

- **Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol**
- **Rhan 2 – Crynodeb o werthusiadau o gyflawni blaenoriaethau gwella'r cyngor yn 2015/16** - Mae hon yn ddadansoddiad crynodeb lle mae'r cyngor yn cyflwyno casgliad cryno o'i werthusiad ei hun o'i berfformiad wrth gyflawni ei flaenoriaethau yn ystod 2015/16.
- **Rhan 3 - Gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn 2015/16 -** Bydd y cyngor bob amser yn ceisio gweithio ar y cyd â chynghorau eraill Cymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae'r rhan hon yn dangos sut mae'r cyngor yn gweithio ar y cyd ag eraill ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau mewn rhai meysydd allweddol.
- **Rhan 4 - Gwybodaeth am Berfformiad a'i defnyddio -** Mae'n rhaid i'r cyngor gynllunio pa wasanaethau y bydd yn eu cyflwyno gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Abertawe a'u bod yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian. Mae'r rhan hon yn dangos sut mae'r cyngor yn cynllunio trefniadau i sicrhau gwelliant ac yn eu rhoi ar waith.

**Sut gallwch chi gymryd rhan a chynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn?**

Gallwch gymryd rhan a dweud eich dweud.

http://www.abertawe.gov.uk/dweudeichdweud

Gallwch gymryd rhan hefyd drwy Fyrddau a Phaneli Craffu'r Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd (dilynwch y ddolen isod)

http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=36785

Gallwch gysylltu â'r cyngor ar unrhyw adeg drwy: e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 63685252.

**Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol**

| Blaenoriaeth Gorfforaethol | Asesiad cryno |
|---|---|
| **1. Diogelu Pobl Ddiamddiffyn.** | Llwyddiannus yn bennaf. Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr. |
| **2. Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion** | |
| **3. Adeiladu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid** | |
| **4. Trechu Tlodi** | Rhannol lwyddiannus. Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr. |
| **5. Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy** | Llwyddiannus yn bennaf. Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr. |

Mae ein data perfformiad ar gyfer 2015/16 i gefnogi'r hunanwerthusiadau ar gael ar ein gwefan:

http://www.abertawe.gov.uk/article/6781/Adroddiadau-Perfformiad-Chwarterol-a-Blynyddol

## Rhan 2 – Crynodeb o'n perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau allweddol

**Hunanasesiad**

Dyma'n 'hunanasesiad' neu'n barn am y cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau 2015/16. Caiff llwyddiant ei bennu gan ddefnyddio fframwaith hunanwerthuso cyson. Caiff llwyddiant ei fesur trwy raddio perfformiad wrth gyflwyno pob blaenoriaeth a graddio'r rhagolygon ar gyfer gwella gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt fel a ganlyn:

| Graddio Perfformiad | Graddio Gwelliant |
|---|---|
| Gradd 1 – Cwbl lwyddiannus (***)<br>Gradd 2 – Llwyddiannus yn bennaf (**)<br>Gradd 3 – Rhannol lwyddiannus (*)<br>Gradd 4 – Aflwyddiannus | Gradd 1 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliant sylweddol eisoes yn ei le<br>Gradd 2 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr<br>Gradd 3 – Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig<br>Gradd 4 – Llawer o rwystrau pwysig rhag gwella |

Yn gyntaf, ymatebir i'r cwestiynau canlynol:

1. **Pam y mae hyn yn flaenoriaeth?**
2. **Beth oedd angen ei wella?**
3. **Beth oeddem yn mynd i'w wneud?**
4. **Beth fu'n llwyddiannus?**
5. **Meysydd i'w datblygu.**
6. **Beth rydym yn ei wneud yn 2016/17**

Yna caiff perfformiad a'r rhagolygon ar gyfer gwella eu hasesu a'u graddio trwy roi **X** yn y gell briodol, yn y matrics ar sail yr ymateb i'r cwestiynau.

***Pa mor llwyddiannus fuom ni?* (Perfformiad)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | | | | |
| **Gradd 2** | | | | |
| **Gradd 3** | | | | |
| **Gradd 4** | | | | |
| | **Gradd 4** | **Gradd 3** | **Gradd 2** | **Gradd 1** |

**Rhagolygon ar gyfer gwella**

Rydym yn cymharu perfformiad â chynghorau eraill yng Nghymru lle bo data cenedlaethol ar gael.

## Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Rydym wedi graddio'n cynnydd wrth gyflawni'n blaenoriaeth *Diogelu Pobl Ddiamddiffyn* yn ystod 2015/16 a'n rhagolygon ar gyfer gwella fel a ganlyn:

| **Graddio Perfformiad** | **Graddio Rhagolygon ar gyfer Gwella** |
|---|---|
| Gradd 1 – Cwbl lwyddiannus (***)<br>Gradd 2 – Llwyddiannus yn bennaf (**)<br>Gradd 3 – Rhannol lwyddiannus (*)<br>Gradd 4 – Aflwyddiannus | Gradd 1 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliant sylweddol eisoes yn ei le<br>Gradd 2 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr<br>Gradd 3 – Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig<br>Gradd 4 – Llawer o rwystrau pwysig rhag gwella |

**Pa mor llwyddiannus fuoch chi? (Perfformiad)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | | | | |
| **Gradd 2** | | | X | |
| **Gradd 3** | | | | |
| **Gradd 4** | | | | |
| | **Gradd 4** | **Gradd 3** | **Gradd 2** | **Gradd 1** |

**Rhagolygon ar gyfer gwella**

**Pam mae hyn yn flaenoriaeth?**

Mae Cyngor Abertawe yn ymrwymedig i sicrhau bod ei ddinasyddion yn ddiogel rhag niwed ac ecsbloetiaeth, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl a chaethwasiaeth modern.

Rydym am i bobl allu byw mor annibynnol â phosib, a hynny yn eu cartrefi eu hunain. Rydym hefyd am i blant aros gyda'u teuluoedd neu dderbyn cefnogaeth mewn lleoliadau teuluol, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.

**Beth oedd angen ei wella?**

Mae angen ystyried diogelu pobl amddiffyn fel mater sydd o bwys i bawb ym mhob un o wasanaethau'r cyngor. Rydym hefyd angen cynyddu ymwybyddiaeth yn ein cymunedau a chyda'n sefydliadau partner.

Mae "diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion ac mae'n ymwneud â hybu:

- Lles corfforol, emosiynol a meddyliol
- Amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Cyfraniad i'r gymdeithas a'r economi

**Beth oeddem yn mynd i'w wneud?**

Dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion fod yn ymrwymedig i ddiogelu ac i hybu eu lles a'u hiechyd.

- Sicrhau bod dealltwriaeth glir ymhlith staff, gwirfoddolwyr, cynghorwyr a'r rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor o'r polisi diogelu corfforaethol a chanllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion.
- Sicrhau bod pob gwasanaeth yn y cyngor yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut mae'n cyfrannu at ddiogelu pobl ac yn monitro sut mae'n gwneud hyn.
- Datblygu a chyflwyno pecyn hyfforddiant diogelu i'w ddefnyddio ar draws holl wasanaethau'r cyngor yn ogystal â hyfforddiant arbenigol i gynghorwyr.
- Datblygu fframwaith adrodd a gwella perfformiad i fesur effaith y polisi Diogelu Gweithredol Corfforaethol.
- Sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei gynnwys yn nhrefniadau diogelu corfforaethol y cyngor.
- Sicrhau bod gennym drefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu ac amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed ac ecsbloetio sylweddol, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern.
- Sicrhau bod dinasyddion lleol yn gwybod lle i fynd i gael cyngor a chymorth ynghylch unrhyw bryderon diogelu sydd ganddynt.

**Beth sydd wedi bod yn llwyddiannus?**

Mae'r Polisi Diogelu ar gael o hyd i weithwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Crëwyd ardal 'Ddiogelu' ar we-dudalennau staff yn ystod 2015 i alluogi mynediad i wybodaeth ddiogelu ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Mae'r gwe-dudalennau'n nodi gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am amddiffyn plant a diogelu oedolion diamddiffyn gan gynnwys cyngor, sut i adrodd am gam-drin a ddrwgdybir, gan gynnwys manylion cyswllt.

Mae'r Cyngor Llawn wedi mabwysiadu hyfforddiant diogelu fel cwrs gorfodol i'r holl weithwyr ac Aelodau Etholedig ac fe'i darperir yn y ffyrdd canlynol:

- Hyfforddiant wyneb yn wyneb a chyrsiau e-Ddysgu i gynghorwyr yn barhaus.
- Defnyddir sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd i ategu'r modiwl e-ddysgu, ac mae wedi'i gyflwyno ar draws yr awdurdod.
- Datblygwyd sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu wyneb yn wyneb sy'n para awr i staff rheng flaen ar gyfer y staff hynny nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiaduron personol ar hyn o bryd (Wrth Sylwi Arno, Adroddwch Amdano) yn ogystal â darparu hyfforddiant mewn ffyrdd gwahanol.

Parheir i adolygu a diweddaru'r holl gyrsiau diogelu yn barhaus, gan gynnwys y Cynllun Hyfforddiant a'r amrywiaeth o hyfforddiant.

Mae rhannu syniadau ac arfer da, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth fel Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol a a Gwastraff a Pharciau, yn helpu i wella canlyniadau i bawb.

Roedd mentrau'n cynnwys nodiadau/cylchlythyrau i roi gwybodaeth i weithwyr, eitem agenda safonol i'w thrafod mewn cyfarfodydd briffio tîm, cynllunio ac arddangos posteri mewn ardaloedd gwaith gweithwyr, tynnu sylw at yr arweinydd diogelu, gan gynnwys dangos ei lun a'i fanylion cyswllt a'r cyswllt ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mae gwaith wedi dechrau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o camfanteisio'n rhywiol ar blant i weithwyr, partneriaid a sefydliadau trydydd sector.

Drwy greu Grŵp Diogelu Corfforaethol, datblygwyd fframwaith gwella perfformiad ac adrodd y cyngor i fesur effaith materion sy'n codi o'r polisi Diogelu Gweithredol Corfforaethol.

**Meysydd i'w datblygu**

Mae angen dealltwriaeth gliriach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion, yn enwedig i staff, cynghorwyr a sefydliadau; bwriedir adolygu'r polisi yn 2016/17.

Mae cyflymder cynnydd o ran contractwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor i gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi bod yn arafach na'r disgwyl; ymgymerir â gwaith yn 2016/17 i fynd i'r afael â hyn.

Mae Arweinwyr Diogelu yn parhau i hyrwyddo'r polisi o bryd i'w gilydd fel y bo'n berthnasol a pharheir i atgyfnerthu hyn drwy'r holl wasanaethau yn ystod 2016/17.

Mae nifer o gynghorwyr a staff heb gwblhau eu holl hyfforddiant diogelu; bydd hyfforddiant yn dal i gael ei gynnig yn barhaus i annog staff i'w gwblhau, e.e. nodwyd bod rhai o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn briodol ar gyfer e-hyfforddiant yn y dyfodol.

Mae gwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nhrefniadau diogelu corfforaethol y plentyn eisoes yn bodoli ar gyfer darparwyr gofal plant a sefydliadau gwirfoddol a manylir y rhain ar y rhyngrwyd. Disgwylir mwy o waith cynlluniedig yn ystod 2016/17 i atgyfnerthu hyn.

Caiff gwaith ei gyflawni i archwilio'r cyfle i gyflwyno hyfforddiant Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar-lein yn ystod 2016/17, a fydd yn helpu i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn parhau i nodi sut byddant yn codi proffil cam-drin yn y cartref yn ei sefydliadau, ac adroddir yn ôl am y cynnydd i gyfarfodydd yn y dyfodol (Cofnodion y BGC, 15 Mawrth 2016). Bydd hyn yn sicrhau y cydlynir ymateb amlasiantaeth i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yn Abertawe drwy waith y BGC.

Mae'r cynllun cyfathrebu ehangach ar gyfer 2016/17 yn cynnwys mwy o waith i ddatblygu tudalennau rhyngrwyd yr awdurdod, a fydd yn hysbysu dinasyddion lleol am faterion diogelu.

Byddwn yn sicrhau bod Diogelu yn ystyriaeth allweddol o ran datblygu modelau newydd i gyflwyno a thrawsnewid gwasanaethau, sy'n cael eu cyflwyno gan y cyngor, gan gynnwys diogelwch ar-lein.

**Beth byddwn yn ei wneud ar gyfer 2016/17?**

Dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion fod yn ymrwymedig i ddiogelu a hyrwyddo'u lles a'u hiechyd.

Byddwn yn sicrhau bod dealltwriaeth glir ymhlith staff, gwirfoddolwyr, cynghorwyr, undebau llafur a'r rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor o'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion.

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod contractwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor yn cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol drwy adolygu, yn ystod 2016/17, fod y safonau, yr arferion, y canllawiau a'r hyfforddiant priodol o ran diogelu ar waith ganddynt.

Byddwn yn sicrhau bod gan bob gwasanaeth yn y cyngor ddealltwriaeth glir o sut mae'n cyfrannu at ddiogelu pobl a'i fod yn monitro hyn.

Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno pecynnau hyfforddiant diogelu i'w defnyddio ar draws holl wasanaethau'r cyngor yn ogystal â hyfforddiant arbenigol i gynghorwyr.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau diogelu corfforaethol y cyngor yn cael eu llywio gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Byddwn yn sicrhau bod gennym drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, ecsbloetio plant a masnachu pobl.

Byddwn yn cydlynu ymateb amlasiantaeth i ymdrin â cham-drin yn y cartref yn Abertawe trwy waith y BGLl a strategaeth i leihau cam-drin yn y cartref yn Abertawe.

Byddwn yn sicrhau bod dinasyddion yn gwybod lle i fynd i gael cyngor a chymorth ynghylch unrhyw bryderon diogelu sydd ganddynt.

Byddwn yn sicrhau bod diogelu yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas â datblygu modelau gwasanaeth newydd a thrawsnewid, gan gynnwys diogelwch ar-lein.

## Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion

Rydym wedi graddio'n cynnydd wrth gyflawni'n blaenoriaeth *Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion* yn ystod 2015/16 a'n rhagolygon ar gyfer gwella fel a ganlyn:

| Graddio Perfformiad | Graddio Rhagolygon ar gyfer Gwella |
|---|---|
| Gradd 1 – Cwbl lwyddiannus (***)<br>Gradd 2 – Llwyddiannus yn bennaf (**)<br>Gradd 3 – Rhannol lwyddiannus (*)<br>Gradd 4 – Aflwyddiannus | Gradd 1 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliant sylweddol eisoes yn ei le<br>Gradd 2 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr<br>Gradd 3 – Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig<br>Gradd 4 – Llawer o rwystrau pwysig rhag gwella |

***Pa mor llwyddiannus fuoch chi? (Perfformiad)***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | | | | |
| **Gradd 2** | | | X | |
| **Gradd 3** | | | | |
| **Gradd 4** | | | | |
| | **Gradd 4** | **Gradd 3** | **Gradd 2** | **Gradd 1** |

***Rhagolygon ar gyfer gwella***

**Pam mae hyn yn flaenoriaeth?**

Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe gael y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae gormod o blant a phobl ifanc yn colli'r ysgol yn rheolaidd ac o ganlyniad nid ydynt yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Beth oedd angen ei wella?**

Rydym angen sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cael cyfle gwell i wella eu sgiliau a'u cymwysterau. Mae deilliannau addysgol yn Abertawe wedi gwella'n dda dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer POB plentyn a pherson ifanc. Bydd codi dyheadau a gwaith effeithiol yn sicrhau na fydd tlodi ac anfantais yn atal gwelliant a chyfleoedd.

**Beth oeddem yn mynd i'w wneud?**

Bydd ysgolion â phresenoldeb isel yn cael eu herio i wella. Bydd swyddogion yr awdurdod yn gweithio gyda phob un o'r ysgolion hyn i sicrhau eu bod yn gwybod yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar lythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda phob oedran fel bod disgyblion yn gallu darllen a dilyn y cwricwlwm. Bydd llwyddiant disgyblion yn cael ei fonitro ar ddiwedd pwyntiau allweddol mewn addysg statudol hyd at 16 oed.

Bydd ysgolion â pherfformiad isel yn cael eu herio i wella. Bydd mwy o bwyslais ar ysgolion yn helpu ei gilydd yn ogystal â chael eu cefnogi gan yr awdurdod.

**Beth sydd wedi bod yn llwyddiannus?**

**Llwyddiant Disgyblion**

- Mae perfformiad cyffredinol yn gadarn ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-2015; mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion wedi cyrraedd eu targedau.
- Cafwyd gwelliant yng nghanlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 (16 oed) ar y flwyddyn flaenorol, gyda Throthwy Cynhwysol Lefel 2 i fyny 4.9% i 64.0%, sef y cynnydd mwyaf a welwyd ar gyfer y mesur hwn yn Abertawe hyd yn hyn; ffigur Cymru oedd 57.9%.
- Roedd canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 hefyd wedi gwella:

| 2014-15 | Y Cyfnod Sylfaen | Cyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol 3 |
|---|---|---|---|
| **Saesneg** | 87.0%<br>I fyny 1.5% | 90.9%<br>I fyny 2.1% | 87.6%<br>I fyny 2.5% |
| **Cymraeg** | 92.2%<br>I fyny 3.1% | 92.9%<br>I fyny 3.4% | 93.2%<br>I fyny 3.3% |

- Roedd canlyniadau'r Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Abertawe'n dda, gan ragori ar y targedau a osodwyd.
- I sicrhau bod safonau'n codi ac yn cael eu cynnal yn llythrennedd a rhifedd, mae ysgolion yn dilyn y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol i sicrhau bod strategaeth glir ar waith ar gyfer disgyblion.
- Ym mlwyddyn academaidd 2013-2014, cyflawnodd 27.3% o ddisgyblion e-brydau ysgol am ddim (ePYDd) drothwy cynhwysol Lefel 2. Ym mlwyddyn academaidd 2014-2015, cynyddodd hyn 12.2% i 39.5%.

**Presenoldeb**

- Parhaodd presenoldeb i wella mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Cynyddodd presenoldeb cynradd i 94.9% (94.4% yn y flwyddyn flaenorol), gan gyfateb i ffigur Cymru gyfan. Hon oedd y gyfradd wella uchaf yng Nghymru ar 0.5%. Cynyddodd presenoldeb uwchradd i 94% (93.3% yn y flwyddyn flaenorol), yr uchaf o'r holl awdurdodau trefol yng Nghymru. Roedd y gyfradd wella hon o 0.7% wedi rhagori 0.2% ar ffigur Cymru Gyfan.
- Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2015-2016 cafwyd cynnydd mewn presenoldeb yn nhymor yr hydref o'i gymharu â'r un tymor yn y flwyddyn flaenorol.
- Bydd ysgolion yn y chwarteli isaf yn derbyn ymweliadau gan ymgynghorydd herio/SLIA ar y cyd i helpu i wella ffigurau presenoldeb.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion strategaeth glir i wella'u presenoldeb a thystiolaeth i brofi ei bod wedi gweithio

**Ysgolion â pherfformiad isel**

- Rhoddwyd y system gategoreiddio genedlaethol newydd ar waith gyda gwaelodlin o 22 o ysgolion gwyrdd ym mlwyddyn academaidd 2014-2015, ac mae hyn wedi parhau i wella hyd at ddechrau blwyddyn academaidd 2015-2016, gyda chynnydd yn nifer yr ysgolion gwyrdd/melyn a llai o ysgolion coch/ambr yn ôl y system gategoreiddio genedlaethol.
- Nodwyd nifer o ffyrdd y caiff ysgolion eu cefnogi:
    - Cefnogaeth gan arbenigwyr perfformiad ar gyfer llythrennedd a rhifedd i ysgolion a dargedwyd ar gyfer 2015-2016.
    - Heriau gan ymgynghorwyr herio.
    - Arweinwyr dysgu rhanbarthol yn gweithio mewn ysgolion targed a nodwyd gan yr awdurdod lleol.
    - Penodwyd arbenigwr perfformiad ar gyfer llythrennedd yn Gymraeg yn ystod mis Mehefin 2015.

## Meysydd i'w datblygu

Parhau â'r gwelliant blwyddyn ar ôl blwyddyn ym mherfformiad y Gymraeg, gwelliant ers y gostyngiad mewn perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn 2013-14.

Datblygu cynllun annog presenoldeb a lleihau gwaharddiadau drwy archwilio ffyrdd o wella ymrwymiad disgyblion a'u presenoldeb.

Gwella eto nifer yr ysgolion yn y categorïau gwyrdd a melyn yn ôl y system gategoreiddio genedlaethol.

Mae cefnogi a herio gan gyrff llywodraethu ac uwch-reolwyr mewn ysgolion yn helpu i gyflawni deilliannau da drwy gael eu herio'n flynyddol yn ystod ymweliadau craidd yr hydref/ail-ymweliad craidd gan ymgynghorwyr herio. Mae'r awdurdod lleol yn awyddus i ysgolion symud tuag at y cysyniad o 'gefnogaeth ysgol i ysgol' ac o ddibyniaeth ar gefnogaeth ganolog yr awdurdod lleol.

Cadw nifer y gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol yn isel.

Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn gweithio'n agos i gyflwyno deilliannau addysgol da i ddysgwyr drwy sicrhau bod niferoedd yn cael eu lleihau drwy raglen a nodwyd i ddatblygu'r gallu i reoli ymddygiad heriol. Bydd aildrefnu'r ddarpariaeth Addysg Mewn Lleoliadau Heblaw'r Ysgol (EOTAS) yn sicrhau bod anghenion ein plant mwyaf diamddiffyn a heriol yn ganolog i'r ymagwedd hon.

## Beth byddwn yn ei wneud ar gyfer 2016/17?

Bydd ysgolion â phresenoldeb isel yn cael eu herio i wella. Bydd swyddogion yr awdurdod yn gweithio gyda phob un o'r ysgolion hyn i sicrhau eu bod yn gwybod yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar lythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda phob oedran fel bod disgyblion yn gallu darllen a dilyn y cwricwlwm. Bydd llwyddiant disgyblion yn cael ei fonitro ar ddiwedd pwyntiau allweddol mewn addysg statudol hyd at 16 oed.

Bydd ysgolion â pherfformiad isel yn cael eu herio i wella. Bydd mwy o bwyslais ar ysgolion yn helpu ei gilydd yn ogystal â chael eu cefnogi gan yr awdurdod.

## Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid

Rydym wedi graddio'n cynnydd wrth gyflawni'n blaenoriaeth *Creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid* yn ystod 2015/16 ac mae ein rhagolygon ar gyfer gwella fel a ganlyn:

| Graddio Perfformiad | Graddio Rhagolygon ar gyfer Gwella |
|---|---|
| Gradd 1 – Cwbl lwyddiannus (***)<br>Gradd 2 – Llwyddiannus yn bennaf (**)<br>Gradd 3 – Rhannol lwyddiannus (*)<br>Gradd 4 – Aflwyddiannus | Gradd 1 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliant sylweddol eisoes yn ei le<br>Gradd 2 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr<br>Gradd 3 – Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig<br>Gradd 4 – Llawer o rwystrau pwysig rhag gwella |

**Pa mor llwyddiannus fuoch chi? (Perfformiad)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | | | | |
| **Gradd 2** | | | x | |
| **Gradd 3** | | | | |
| **Gradd 4** | | | | |
| | **Gradd 4** | **Gradd 3** | **Gradd 2** | **Gradd 1** |

**Rhagolygon ar gyfer gwella**

### Pam mae hyn yn flaenoriaeth?

Mae Abertawe wrth wraidd y dinas-ranbarth ac mae llwyddiant y rhanbarth yn y dyfodol yn dibynnu ar ganol dinas llewyrchus a llawn addewid. Bydd canol dinas

aml-ddefnydd a llwyddiannus yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion ac yn helpu i gyflawni'r uchelgeisiau gwrthdlodi ar gyfer Abertawe.

**Beth oedd angen ei wella?**

- Atyniad a bywiogrwydd canol y ddinas.
- Creu ardaloedd gwell ar gyfer manwerthu, swyddfa, hamdden a phreswyl.
- Creu mwy o swyddi o safon.
- Helpu'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am amser hir a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd i ddod o hyd i swyddi.
- Creu cyrchfan ar gyfer ymwelwyr, siopwyr, busnesau a phreswylwyr.
- Atgyfnerthu rôl canol y ddinas wrth wraidd y dinas-ranbarth.

**Beth oeddem yn mynd i'w wneud?**

I gyflawni hyn, byddwn yn:

- Gweithio i adfywio canol y ddinas yn ffisegol yn unol â'n fframwaith strategol diwygiedig ar gyfer canol y ddinas - yn benodol, adeiladu a gwella eiddo a defnyddio isadeiledd galluogi i gefnogi datblygiadau safle;
- Sicrhau cefnogaeth ariannol rhanbarthol, gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop er mwyn adfywio canol y ddinas;
- Hwyluso cwblhad briffiau datblygu, marchnata safleoedd a phenodi datblygwyr;
- Denu datblygiad cynhenid a buddsoddiad mewnol newydd;
- Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant drwy ddefnyddio Y Tu Hwnt i Frics a Morter;
- Cydnabod pwysigrwydd isadeiledd digidol cystadleuol i gefnogi twf economaidd, buddsoddiadau ac enillion cynhyrchiant y ddinas;
- Rhagweld y bydd nifer yr ymwelwyr yn cynyddu dros amser o ganlyniad i fuddsoddiadau.

**Beth sydd wedi bod yn llwyddiannus?**

Ym mis Chwefror 2016, penododd Cyngor Abertawe Rivington Land ac Acme i reoli adfywio'r safle i'r gogledd ac i'r de o Heol Ystumllwynarth sy'n cynnwys hen ganolfan siopa a maes parcio aml-lawr Dewi Sant a maes parcio'r LC.

Penodwyd Trebor Developments ym mis Chwefror 2016 i arwain y gwaith i adfywio safle'r Ganolfan Ddinesig.

Mae rhaglen "Gwireddu'r Potensial" y cyngor, sy'n defnyddio arian Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, wedi cyflawni ei chanlyniadau, gan gyflwyno 3730m sg o arwynebedd llawr masnachol a 33 uned breswyl newydd.

Fel rhan o'r Ganolfan Gyflogaeth ar Ffordd y Brenin, prynwyd sawl eiddo ar hyd Ffordd y Brenin i alluogi'r cyngor i gyflawni'r weledigaeth a nodwyd yn Fframwaith Canol y Ddinas. Dechreuodd waith dymchwel mewnol ar gyn adeilad clwb nos Oceana.

Mae'r cyngor wedi hwyluso pryniant eiddo ac wedi cymeradwyo'r cais cynllunio ar gyfer datblygu llety sylweddol i fyfyrwyr yn Stryd Mariner. Disgwylir i'r prosiect ddechrau yn yr hydref a bydd yn helpu i barhau ag adfywiad Stryd Fawr Abertawe.

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi cyflwyno cais Bargen Ddinesig 'Arfordir Rhyngrwyd' i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru â'r nod o fynd i'r afael â heriau ynni, iechyd a lles a chyflymu economaidd drwy ddefnyddio pŵer trawsffurfiol rhwydweithiau digidol a sylfaen asedau Bae Abertawe.

Sefydlwyd ystafell farchnata ranbarthol a thîm mewnfuddsoddi rhithwir yng Nghampws y Bae.

Dechreuodd gwaith i wella ffordd brysur yng nghanol y ddinas (Ffordd y Gorllewin) i fodurwyr, bysus a cherddwyr yn ystod 2015/16, a disgwylir i'r gwaith bara tan hydref 2016. Mae'r cynllun ffordd newydd ger Orsaf Fysus y ddinas yn helpu i wella symudiadau bysus ac mae'n cael ei ariannu gan raglen adfywio canol dinas Abertawe Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd ym mis Mehefin 2014.

Sicrhawyd bod y prif gynllun drafft a luniwyd ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe ar gyfer Strategaeth Coridor Arloesedd Ffordd Fabian ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 1 Rhagfyr 2015 tan 25 Ionawr 2016.

Diwygiwyd dogfen Cyrchfan Bae Abertawe 2013-16 ym mis Hydref 2015 sef datganiad o fwriad y diwydiant am sut bydd, ar y cyd, yn nodi, yn cydnabod ac yn gwella'r profiad i ymwelwyr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r ddogfen hon yn helpu i wella, ehangu ac amrywio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, twristiaeth a threftadaeth.

Mae twristiaeth ar gyfer economi Bae Abertawe yn fwy na £400m y flwyddyn gyda ffigurau newydd ar gyfer 2015 yn dangos bod twristiaid wedi gwario £401.68m drwy gydol y flwyddyn ym Mae Abertawe, cynnydd o 1.8% ers 2014. Mae ffigurau STEAM (Model Gweithgarwch Twristiaeth Economaidd Scarborough) hefyd yn dangos bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu 2.1% i 4.56m a bod nifer y swyddi a gefnogwyd gan dwristiaeth wedi cynyddu 3.2% i 5,718.

Cafwyd cynnydd yn nifer y prosiectau ar gyfer 2015/16 a chanddynt gymalau budd cymdeithasol ac Y Tu Hwnt i Frics a Morter yn eu contractau - cynnydd o 20 yn

ychwanegol ar gyfer y flwyddyn. Crëodd hyn 343 o wythnosau o gyflogaeth drwy Y Tu Hwnt i Frics a Morter ar gyfer y di-waith a'r anweithgar yn economaidd.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Glannau SA1 Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD).

**Meysydd i'w datblygu**

Mae'r cyngor yn gweithio gyda Rivington Land ac Acme i ddatblygu cynigion canol y ddinas er mwyn cynnal ymchwiliadau safle cynhwysfawr a denu tenantiaid. Rhagwelir y cyflwynir cais cynllunio amlinellol yn 2017.

Yn yr un modd, gyda Trebor Developments, byddwn yn gweithio i ddatblygu safle canol y ddinas i fodloni gofynion ar gyfer fflatiau, tai tref, caffis a bwytai a man cyhoeddus newydd.

Gyda chefnogaeth y cyngor, bydd gwaith adeiladu Datblygiad Icon 12 yn dechrau yn Stryd Mariner yn yr hydref, gan ddarparu llety sylweddol i fyfyrwyr a nifer o siopau a busnesau. Mae'r cynllun yn cynnwys tŵr a chanddo ddyluniad to ar oleddf eiconig, a hwn fydd ail adeilad uchaf Abertawe ac ymysg yr uchaf yng Nghymru.

Cyflwynir ceisiadau ariannu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ddatblygu'r gwaith o gyflwyno prif gynllun Ffordd y Brenin. Bydd gwaith i ddymchwel adeiledd hen glwb nos Oceana yn dechrau.

Caiff prosiectau rhanbarthol a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE), Gweithffyrdd 2 a 'Cynnydd', eu cyflwyno i helpu i fynd i'r afael â materion anweithgarwch yn Abertawe.

Caiff y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ei chwblhau eleni, gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru.

Datblygu Cam 1 Prosiect Gwaith Copr yr Hafod gan ddefnyddio arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Caiff Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau Dinas a Sir Abertawe ei gyflwyno i'r cyngor ym mis Mehefin 2016 a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y broses ymgynghori cyhoeddus yn parhau drwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst. Yn dilyn unrhyw newidiadau penodol sy'n codi o'r ymgynghoriad, cyflwynir y CDLl i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n annibynnol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Strategaeth Coridor Arloesedd Ffordd Fabian a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2016. Wedi i'r Fframwaith Prif Gynllun terfynol gael ei

gymeradwyo, caiff y ddogfen ei mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) priodol yr awdurdod.

Mae Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) Gŵyr, cynllun rheoli 5 mlynedd statudol, yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer yr AoHNE gan nodi'n dyheadau ar gyfer y dyfodol, a'r gwaith y bydd ei angen. Rhagwelir y caiff y cynllun rheoli hwn ei adolygu a'i gyhoeddi erbyn 2017.

Bydd gwaith dylunio arbenigol ar gyfer tai cyngor newydd Abertawe'n cychwyn yn ystod 2016/17. Safonau effeithiolrwydd ynni uchel a chyfleoedd cyflogaeth i bobl leol mewn cynlluniau peilot ym Mhenderi a Llansamlet wrth adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy. Mae'n cynnwys cymysgedd o randai a chartrefi teuluol newydd ar Ffordd Milford ac mae'r cynlluniau ar gyfer cynllun Llansamlet ym Mharc yr Helig yn cynnwys sawl rhandy un a dwy ystafell wely. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle yn nes ymlaen yn 2016. Bydd y fenter hon yn helpu tuag at ddiwallu anghenion cymunedol a chefnogi twf economaidd cynaliadwy.

Mae'r awdurdod yn newid y ceginau a'r ystafelloedd ymolchi yng nghartrefi'r cyngor yn y Gendros, Bonymaen, St Thomas a Phort Tennant. Mae contractwyr yn cyflwyno'r gwaith sy'n angenrheidiol i gyflwyno amrywiaeth o fuddion i'r gymuned gan gynnwys cynnig prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant i bobl leol.

**Beth byddwn yn ei wneud ar gyfer 16/17?**

Atgyfnerthu a gwella canol y ddinas fel cyrchfan rhanbarthol bywiog ar gyfer siopa, diwylliant, hamdden, dysgu a busnes.

Gweithio i adfywio canol y ddinas yn ffisegol yn unol â'n Fframwaith Strategol Diwygiedig ar gyfer Canol y Ddinas - yn benodol, datblygu a gwella eiddo a defnyddio isadeiledd i adfywio.

Archwilio ffynonellau ariannu a gwneud cais amdanynt er mwyn cefnogi adfywio canol y ddinas a gwelliannau trafnidiaeth cysylltiedig.

Parhau i baratoi canllawiau dylunio, briffiau datblygu, safleoedd marchnad a phenodi datblygwyr.

Sicrhau bod Abertawe'n cynrychioli cyfle masnachol cryf i ddatblygiadau mewnfuddsoddi brodorol newydd er mwyn cyflwyno cynlluniau adfywio blaenoriaeth y cyngor.

Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant drwy ddefnyddio'r rhaglen Y Tu Hwnt i Frics a Morter.

Canfod cyfleoedd ehangach i greu lleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, profiad gwaith, cyfleoedd prentisiaeth a lleoliadau i raddedigion a'u cynyddu i'r eithaf drwy;

- Roi'r polisi Budd i'r Gymuned Corfforaethol ehangach newydd ar waith a fydd yn canfod holl weithgareddau'r cyngor lle gall buddion i'r gymuned ychwanegu gwerth, gan gynnwys contractau gwasanaeth a chyflenwi, ceisiadau cynllunio a gwerthu tir;

- Rhoi'r cynllun Prentisiaid Corfforaethol newydd ar waith i ehangu cyfleoedd am brofiad gwaith, cyfleoedd i brentisiaid, lleoliadau i raddedigion etc. ar draws adrannau'r cyngor i bobl ifanc, y di-waith tymor hir a grwpiau dan anfantais yn Abertawe.

Gweithio gyda phartneriaid i barhau i gyflwyno isadeiledd digidol cystadleuol i gefnogi twf economaidd, buddsoddiad a chynhyrchiant y ddinas.

Datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a chanllawiau cynllunio atodol, megis Strategaeth Coridor Arloesedd Ffordd Fabian a Chynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE).

Cefnogi datblygiadau sy'n gwella gallu Abertawe i gystadlu'n economaidd a gweithredu fel ysgogydd economaidd ar gyfer y Dinas-ranbarth.

Hwyluso twf ac arallgyfeirio'r economi leol a chynnydd mewn cyflogaeth gwerth uchel, sy'n gofyn am sgiliau da.

Sicrhau bod gan gymunedau ystod a dewis digonol o dai o ansawdd da mewn lleoliadau addas i ddiwallu anghenion cymunedol a chefnogi twf economaidd cynaliadwy.

Hyrwyddo a gwella economi wledig amrywiol a chynaliadwy.

Gwella, ehangu ac arallgyfeirio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, twristiaeth a threftadaeth priodol.

Datblygu Abertawe fel Dinas Arloesedd a datblygu gweithgareddau economaidd gwerth uwch.

## Trechu Tlodi

Rydym wedi graddio'n cynnydd wrth gyflawni'n blaenoriaeth Trechu Tlodi yn ystod 2015/16 a'n rhagolygon ar gyfer gwella fel a ganlyn:

| Graddio Perfformiad | Graddio Rhagolygon ar gyfer Gwella |
|---|---|
| Gradd 1 – Cwbl lwyddiannus (***)<br>Gradd 2 – Llwyddiannus yn bennaf (**)<br>Gradd 3 – Rhannol lwyddiannus (*)<br>Gradd 4 – Aflwyddiannus | Gradd 1 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliant sylweddol eisoes yn ei le<br>Gradd 2 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr<br>Gradd 3 – Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig<br>Gradd 4 – Llawer o rwystrau pwysig rhag gwella |

**Pa mor llwyddiannus fuoch chi? (Perfformiad)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | | | | |
| **Gradd 2** | | | | |
| **Gradd 3** | | | **x** | |
| **Gradd 4** | | | | |
| | **Gradd 4** | **Gradd 3** | **Gradd 2** | **Gradd 1** |

**Rhagolygon ar gyfer gwella**

**Pam mae hyn yn flaenoriaeth?**

Ein gweledigaeth yw y bydd dinasyddion Abertawe'n llawn dyheadau a bydd ganddynt yr hyder a'r adnoddau i wireddu eu dyheadau. Rydym am i bawb, lle bynnag maent yn byw, fyw mewn lle ffyniannus a chefnogol, lle maent yn teimlo'n

falch eu bod yn perthyn i'r gymuned. Rydym am i bobl feddu ar ddyheadau ar gyfer eu cymunedau a'u teuluoedd sy'n rhoi her, boddhad ac yn eu hysbrydoli. Rydym am greu cymunedau uchelgais, lle bydd pobl ifanc yn ymdrechu i gael dyfodol gwell, a lle byddant yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod. Rydym am ddarparu modelau rôl cryf ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n eu helpu i ddysgu a chael profiad o opsiynau newydd sydd efallai wedi bod y tu hwnt i'w breuddwydion mwyaf gwyllt. Yn bennaf oll, rydym am i bobl ymfalchïo yn Abertawe fel lle i fyw ynddo.

At ddiben Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae Cymru wedi'i rhannu yn 1,896 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae gan Abertawe gyfran uwch na'r cyfartaledd o LSOA yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 17 (12%) o'i 147 LSOA bellach yn y 190 (10%) uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Gellir mynegi graddfa'r anghydraddoldeb yn Abertawe drwy'r ffaith fod gan Abertawe draean o'r LSOA mwyaf cefnog yng Nghymru hefyd.

**Beth oedd angen ei wella?**

Mae'n rhaid i'r cyngor wneud pethau'n wahanol a sicrhau bod y sefydliad cyfan yn canolbwyntio ar ymdrechion i drechu tlodi. Mae'r Strategaeth Trechu Tlodi'n amlinellu tri maes allweddol i'r cyngor eu datblygu:

- Grymuso Pobl Leol
- Newid Diwylliannau
- Targedu Adnoddau

Amlinellir meysydd penodol i'w gwella yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth o dan bob un o'r penawdau hyn. Amlinellir y canlyniadau rydym am eu newid isod.

**Beth oeddem yn mynd i'w wneud?**

Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu Trechu Tlodi sy'n canolbwyntio ar gyfres glir o weithgareddau i fynd i'r afael â thlodi ac i gynnwys y bobl hynny sy'n ei brofi.

Dywedom y byddem yn:

- Ceisio ailgyfeirio adnoddau i gefnogi'r agenda hon.
- Cyflwyno partneriaeth i gydlynu gwasanaethau'n well yn lleol.
- Ceisio adleoli mwy o'n gweithlu i'r gymuned.
- Cyflwyno cyfleoedd proffil uchel i bobl sy'n profi tlodi herio ffydd, busnes ac arweinwyr dinesig.
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl leol gael mwy o gyfraniad i'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal.

- Parhau i ddatblygu’n gwaith presennol yn y maes hwn ymhellach drwy nifer o raglenni, megis Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau’n Deg.

**Beth sydd wedi bod yn llwyddiannus?**

- Mae'r cyngor yn parhau i gyflwyno'r camau gweithredu sy'n cyd-fynd â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi, gyda rhai o'r camau gweithredu'n ymestyn dros 3 blynedd. Mae'r cynllun gweithredu wedi cael ei adolygu i sicrhau bod canlyniad y Strategaeth Trechu Tlodi yn mesur y gwahaniaeth y bwriadwyd iddo'i wneud. Hyd yn hyn, rydym wedi dechrau 60.87% o'r gweithgareddau yn y cynllun gweithredu.

- Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid megis Cyngor ar Bopeth ac Undeb Credyd LASA i liniaru effaith y Diwygio Lles sy'n cynnig cyngor, cymorth a mynediad i fenthyciadau fforddiadwy.

- Yn y cyngor, mae'r Tîm Hawliau Lles yn parhau i gefnogi pobl i fwyafu'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'r Tîm Budd-daliadau Tai yn parhau i sicrhau bod pobl yn derbyn eu budd-daliadau mewn modd prydlon ac amserol. Mae'r cyngor yn parhau i weithio ar liniaru effeithiau Diwygio Lles, ac mae ein rôl wrth hyfforddi staff a phartneriaid ar hawliau lles a chyngor ar fudd-daliadau yn rhan o hyn. Erys hyn yn flaenoriaeth ac mae'n rhaglen waith barhaus, gyda'r hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru.

- Mae rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf, ESGYN a Chymunedau ar gyfer Gwaith bellach yn gwbl weithredol i gefnogi pobl â'u cyflogadwyedd ac i gyflogaeth.

- Mae'r Gwasanaeth Pobl Ifanc yn parhau i weithio gyda rhai 11 i 25 oed i gefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, mae cyfradd y bobl ifanc rhwng 17 a 18 oed sy'n NEET yn 5.23%.

- Perchnogir Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar gan y Bwrdd Dinasoedd Iach er mwyn paratoi plant ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd a pha mor barod ydynt ar gyfer yr ysgol. Drwy fentrau Dechrau'n Deg, mae plant yr aseswyd eu bod yn perfformio ar y norm datblygiadol neu uwchben hynny ar 56.29% ar gyfer plant 2 flwydd oed a 60.7% ar gyfer plant 3 oed.

**Meysydd i’w datblygu**

Mae nifer o feysydd allweddol rydym ni fel cyngor wedi'u hystyried yn feysydd i'w gwella ac yn mynd i'r afael â hwy, megis:

- Rhoi'r cyfle gorau mewn bywyd i blant fel eu bod yn gallu cyflawni yn eu blynyddoedd cynnar a fydd yn eu galluogi i ddysgu a ffynnu.
- Cefnogi teuluoedd i fyw bywydau iach.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael dewisiadau a chyfleoedd pan fyddant yn yr ysgol a phan fyddant yn gadael yr ysgol i gael mynediad i ddysgu, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Sicrhau bod gan deuluoedd ac unigolion safon byw dda, sy'n golygu cael cyflogaeth â chyflog da a hawlio'r budd-daliadau cywir y mae hawl ganddynt i'w derbyn.
- Sicrhau bod pobl yn byw mewn tai fforddiadwy o safon, sy'n cefnogi cymunedau cynaliadwy.

Felly, y meysydd rydym yn ceisio'u datblygu yw:

- Drwy ein gwaith gyda sefydliadau partner a'n rhaglenni ein hunain megis Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, mae angen i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau o safon yn hygyrch i blant rhwng 0 a 7 oed, a bod yr holl blant yn gallu bod yn barod ar gyfer yr ysgol o ran datblygiad cynnar.

- Mae angen canolbwyntio ar gefnogaeth deuluol i sicrhau bod plant o bob oed yn cynyddu eu potensial dysgu i'r eithaf, yn enwedig sicrhau bod pobl ifanc yn mynd i addysg bellach, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant ar ôl 16 oed.

- Mae angen i ni gynyddu cyfranogiad cymunedol ymhellach i alluogi pobl i ddod yn fwy gwydn yn eu cymunedau a chyfranogi'n fwy wrth wneud penderfyniadau a chynnal gwasanaethau yn eu hardaloedd.

- Mae angen i ni barhau i drechu tlodi a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chyfleoedd bywyd.

- Mae Abertawe wedi cyflawni cryn dipyn o ran darparu tai addas, ond mae angen i ni barhau i wella ansawdd cartrefi yn gyffredinol, yn ogystal â'r stoc tai.

- Adolygwyd y mesurau a gynhwysir yn y Flaenoriaeth Trechu Tlodi ar gyfer 2015/16 o ran eu cadernid ac i weld a ydynt yn addas i'r diben i sicrhau y nodir cyfres well a mwy penodol i fesur cynnydd ar y meysydd allweddol y mae'r flaenoriaeth hon yn ceisio'u gwella yn 2016/17.

**Beth byddwn yn ei wneud ar gyfer 2016/17?**

Rhoi Strategaeth Blynyddoedd Cynnar Abertawe ar waith sy'n gweithio gyda'r adran iechyd i sicrhau bod plant sy'n byw yn Abertawe'n cael eu cefnogi i ddatblygu a gwireddu eu potensial. Gwneir hyn trwy:

- Godi safonau datblygiad plant yn yr holl leoliadau gofal plant.
- Defnyddio datganiad Abertawe i gynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygiad plant.
- Rheoli Dechrau'n Deg a Mwy a'n llwybr iaith Blynyddoedd Cynnar.

Mae Abertawe'n rhoi'r Fframwaith Cynnydd a Chynnwys Ieuenctid ar waith drwy:

- Nodi pobl ifanc ddiamddiffyn yn gynnar a'u cefnogi yn y ffordd iawn.
- Gwybod ar ba gam o'i addysg, ei gyflogaeth neu ei hyfforddiant y mae pob person ifanc
- Sicrhau bod y ddarpariaeth gywir ar gael.

Bydd Abertawe'n parhau i fynd i'r afael ag effeithiau newidiadau Diwygio Lles, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol drwy:

- Fwyafu'r budd-daliadau y mae hawl gan bobl i'w derbyn a gwella cyflymder prosesu.
- Cefnogi pobl ag apeliadau.
- Herio cosbau.
- Cefnogi'r bobl fwyaf diamddiffyn.
- Dadansoddi a chynyddu ymwybyddiaeth o effaith diwygio lles.

Bydd Abertawe yn parhau i drechu tlodi drwy rymuso cymunedau, targedu adnoddau a newid diwylliannau drwy:

- Gynnwys a gweithredu yn y gymuned.
- Strategaeth a chynllun gweithredu Trechu Tlodi Abertawe.

Bydd Abertawe'n gwella ansawdd a chyflenwad tai drwy:

- Wella stoc tai'r cyngor fel ei bod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Darparu unedau tai fforddiadwy newydd ac ychwanegol.
- Atal digartrefedd.
- Arwain a hybu gwella cyflwr tai yn y sector preifat.

## Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

Rydym wedi graddio'n cynnydd wrth gyflawni'n blaenoriaeth *Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy* yn ystod 2015/16 a'n rhagolygon ar gyfer gwella fel a ganlyn:

| Graddio Perfformiad | Graddio Gwella |
|---|---|
| Gradd 1 – Cwbl lwyddiannus (***)<br>Gradd 2 – Llwyddiannus yn bennaf (**)<br>Gradd 3 – Rhannol lwyddiannus (*)<br>Gradd 4 – Aflwyddiannus | Gradd 1 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, gyda gwelliant sylweddol eisoes yn ei le<br>Gradd 2 – Rhagolygon ar gyfer gwella'n dda a dim rhwystrau mawr<br>Gradd 3 – Rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig<br>Gradd 4 – Llawer o rwystrau pwysig rhag gwella |

Pa mor llwyddiannus fuoch chi? (Perfformiad)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | | | | |
| **Gradd 2** | | | X | |
| **Gradd 3** | | | | |
| **Gradd 4** | | | | |
| | **Gradd 4** | **Gradd 3** | **Gradd 2** | **Gradd 1** |

**Rhagolygon ar gyfer gwella**

**Pam mae hyn yn flaenoriaeth?**

Rydym angen adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy oherwydd bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ac yn lleihau costau gwasanaethau. Mae Cymunedau Cynaliadwy yn rhai lle mae pobl am fyw, gweithio a magu eu teuluoedd

ynddynt. Mae'r rhain yn gymunedau lle caiff y bobl ddiamddiffyn gefnogaeth, lle gall pobl reoli busnesau a lle mae teuluoedd yn gweithio'n dda ac yn aros gyda'i gilydd.

Mae modelau presennol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn anghynaladwy ac nid ydynt bob amser yn darparu'r canlyniadau gorau i bobl. Mae Abertawe'n newid ac mae anghenion preswylwyr yn newid hefyd. Mae trawsnewid gwasanaethau yn hanfodol i ymdopi â heriau'r dyfodol ac mae mwy o frys i wneud hyn oherwydd y toriadau sylweddol i'r gyllideb rydym yn eu hwynebu.

Hefyd mae angen perthynas newydd rhwng preswylwyr a gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i breswylwyr, teuluoedd a chymunedau fod yn fwy hunanddibynnol a gwydn a gwneud mwy o bethau drostynt eu hunain. Mae'n rhaid i'n polisi cynllunio a'n hymagwedd at reoli asedau sicrhau y gellir cynnal cymunedau a bod ganddynt yr asedau gofynnol.

**Beth oedd angen ei wella?**

Cafwyd chwe phrif faes lle'r oedd angen newid cynaliadwy a thymor hir:

- Cefnogi pobl a chymunedau i helpu eu hunain a chynnal mwy o wasanaethau lleol.
- Canolbwyntio ar gamau gweithredu atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Dealltwriaeth newydd â phreswylwyr am rôl y cyngor yn y dyfodol a'r hyn y byddwn ac ni fyddwn yn ei wneud yn y dyfodol.
- Newid ar draws y system gan weithio gyda phartneriaid ar draws Abertawe.
- Sicrhau bod ein Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at adeiladu cymunedau sy'n parhau i fod yn gydlynol ac yn hyfyw.
- Sicrhau bod asedau cymunedol (pobl a lleoedd) yn defnyddio'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau i'r rhai y mae eu hangen arnynt fwyaf.

**Beth oeddem yn mynd i'w wneud?**

Bwriadom:

- Roi amrywiaeth o gynlluniau newydd ar waith gan ddefnyddio Cyllideb Atal â'r nod o leihau'r angen am wasanaethau yn y tymor hir.
- Hyrwyddo annibyniaeth er mwyn i bobl allu byw gartref neu yn y gymuned am fwy o amser a lleihau nifer y bobl sy'n symud i ofal preswyl.
- Gweithio gyda'r sectorau gwirfoddol a chymunedol yn Abertawe i hyrwyddo gweithredu yn y gymuned, meithrin gallu a datblygu prosiectau er mwyn i gymunedau gynnal gwasanaethau, rheoli asedau a gweithio'n gydlynol.

- Ymdrechu i gynnwys cymunedau yn fwy ehangach o ran rôl y cyngor yn y dyfodol a'r hyn y byddwn yn disgwyl i breswylwyr, teuluoedd a chymunedau ei wneud yn y dyfodol i gefnogi eu hunain.
- Cytuno ar ymagwedd newydd at integreiddio gwasanaethau, cyllidebau a rennir a chyllidebau cymunedol a chyflwyno ar y cyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Defnyddio ein Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy a bod gan gymunedau'r asedau a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt.
- Ymrwymo i gynnal adolygiadau ardal o'r holl asedau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol.

**Beth sydd wedi bod yn llwyddiannus?**

Mae'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi parhau i hyrwyddo annibyniaeth a buddsoddwyd llawer o arian yn y gwasanaethau gofal canolradd i ganiatáu gwell cefnogaeth i bobl yn y gymuned.

Gyda chefnogaeth a help ychwanegol gan y cyngor, mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd adref ar ôl arhosiad byr yn y gwelyau ail-alluogi preswyl cymunedol tymor byr yn Nhŷ Bonymaen. I'r unigolion hynny sy'n mynd trwy wasanaeth gofal cartref ail-alluogi’r cyngor, ceir gostyngiad yn yr oriau gofal cartref y mae eu hangen.

Er bod y niferoedd gofal preswyl wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, nid yw nifer y derbyniadau wedi lleihau. Fodd bynnag, y rhai sy'n mynd i ofal preswyl yw'r rhai sydd naill ai am wneud hynny neu'r rhai nad oes modd eu cefnogi mwyach yn y gymuned.

Mae'r rhai sy'n mynd i ofal preswyl hefyd yn mynd yn hŷn ac yn tueddu i aros yno am lai o amser nag a fu'n hanesyddol. Nid yw'n syndod nad yw cyfraddau derbyn wedi lleihau pan geir poblogaeth sy'n heneiddio; ond y peth pwysig yw bod y rhai sy'n dymuno aros gartref yn gallu gwneud hynny.

Er bod y cynlluniau’r Gronfa Atal wedi cael llwyddiannau amrywiol, mae'n anodd cael tystiolaeth i ddangos a ydynt wedi lleihau'r angen am wasanaethau dros y tymor hwy wrth iddynt ddal pobl ar y camau cynharaf cyn iddynt hyd yn oed gyrraedd gwasanaeth. Mae gwerthuso'r gwasanaeth yn seiliedig ar yr hyn y 'gallant' fod wedi'i dderbyn pe na bai ganddynt yr ymyriad amgen. O safbwynt gofal cymdeithasol, cefnogwyd 4 cynllun - Cydlynu Ardaloedd Lleol, Cynadledda Grŵp Teulu i Oedolion, y prosiect "Cyrraedd a Thrwsio" a chynllun bod yn gyfaill i wirfoddolwyr.

Mae Cydlynu Ardaloedd Lleol wedi'i wreiddio i 3 ardal wahanol yn Abertawe ac ar droad y flwyddyn ariannol newydd, bwriedid ei ehangu i 3 ardal arall. Disgwylir

gwerthusiad o'r cynllun hyd at fis Mawrth a fydd yn dangos yr enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad ac yn dystiolaeth o'r arbedion posib o ran troi at wasanaethau eraill.

Yn gyffredinol, mae'r Gyllideb Atal wedi bod yn ffordd lwyddiannus o dreialu a gwreiddio arfer ataliol ac ymyrryd yn gynnar i gyflwyno gwasanaethau. Caiff nifer o'r prosiectau eu gwreiddio i ddulliau cyflwyno prif ffrwd ac mae eraill yn parhau i gael eu treialu o hyd.

Mae arwyddion cynnar yn dangos rhai canlyniadau cychwynnol llwyddiannus i bobl hŷn, plant a'u teuluoedd, gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion a disgyblion ysgol diamddiffyn. Fodd bynnag, mae'r prosiectau mwyaf effeithiol wedi'u cynnal yn fewnol lle mae staff wedi treialu dulliau newydd a darparu hyfforddiant mewnol i staff, yn ogystal â chefnogaeth i bartneriaid er mwyn newid eu harfer.

Drwy'r adolygiadau comisiynu a'r gwaith cynnwys sy'n gysylltiedig â hwy, mae'r cyngor wedi ceisio esbonio i'r cyhoedd a rhanddeiliaid y rheswm pam y mae angen i wasanaethau newid i ddiwallu anghenion newidiol yn ogystal â chael eu cyflwyno o fewn sefyllfa ariannol heriol.

Er mwyn cynorthwyo'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol, mae'r cyngor wedi mabwysiadu polisi sydd bellach ar gael i aelodau'r cyhoedd i helpu i'w symleiddo.

Mae hyn wedi helpu oherwydd o'r blaen, yn sgîl diffyg dealltwriaeth o'r hyn yr oedd Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn ei olygu mewn gwirionedd, treuliwyd cryn dipyn o amser gan swyddogion yn cynorthwyo sefydliadau pan nad oedd modd cyflawni eu disgwyliadau neu lle nad oedd yr hyn a gynigiwyd wedi cefnogi polisi ac amcanion y cyngor.

Trosglwyddwyd nifer o asedau drwy drwydded ar gyfer lawntiau bowls, pafiliynau, pafiliynau'r henoed, i sicrhau parhad y gweithgareddau cymunedol hyn, a chyflwynwyd 5 cais llwyddiannus i'r Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned yn 2015/16. Yn gyffredinol, derbyniwyd 10 cais yn 2015/16 a chymeradwywyd 5 gan y Panel Ariannu Allanol. Roedd pedwar o'r ceisiadau hyn er mwyn i aelodau'r Gymdeithas Fowls gynnal y gwasanaethau eu hunain, ac roedd y cais arall yn trosglwyddo'r gwaith o gynnal a chadw'r cloc yn Eglwys St Thomas. Drwy drosglwyddo'r gwasanaethau hyn i gymunedau, amcangyfrifir bydd y cyngor yn arbed 69k y flwyddyn. Mae llinyn Gweithredu yn y Gymuned rhaglen *Abertawe Gynaliadwy* yn gweithio gyda phartneriaid i hysbysebu rôl yr ariannu a llwybr pobl i gyflwyno cais amdano.

Mae'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi cynorthwyo'r holl lawntiau bowls sy'n cael eu trosglwyddo i naill ai gymdeithasau bowls cymunedol, clybiau unigol neu Gynghorau Cymuned, y mae ganddynt gyfrifoldeb llwyr am gynnal y lawnt.

- Cynhelir 8 lawnt gan y clwb neu'r gymdeithas neu drwy gontractwr allanol.
- Cynhelir 8 lawnt gan yr Adran Parciau i fanyleb y mae cymdeithasau bowls, clybiau unigol neu Gynghorau Cymuned wedi cytuno arni, y codir tâl arnynt am y trefniadau cynnal.
- Mae 6 lawnt nad ydynt yn cael eu defnyddio ac ychydig iawn o waith cynnal sydd angen arnynt, ac mae 1 lawnt wedi'i newid yn ardal chwarae.

Drwy waith yn y gymuned am rôl y cyngor yn y dyfodol a'r hyn rydym yn disgwyl i breswylwyr, teuluoedd a chymunedau ei wneud yn y dyfodol i gefnogi eu hunain, mae preswylwyr a busnesau wedi cynyddu eu hymdrechion ailgylchu, gyda'r perfformiad ailgylchu'n cynyddu o 56.5% yn 2014/15 i 59.5% yn 2015/16.

Mae'r strategaeth ddigidol wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2016 ac mae'n cefnogi'r cymunedau drwy fwy o hunanwasanaeth. Mae'r strategaeth nid yn unig yn ymwneud â hunanwasanaeth, mae'n ddull digidol sy'n cefnogi cyflwyno mewn modd nad yw'n ddigidol, yn enwedig i'r mwyaf diamddiffyn. Mae dulliau digidol yn cefnogi staff â systemau a thechnoleg datblygedig fel y gallant gefnogi'r cymunedau'n fwy effeithiol ac effeithlon, ac mae'r cyngor wedi cynyddu WiFi yn ei adeiladau cyhoeddus fel y gall y cyhoedd ddefnyddio cyfryngau hunanwasanaeth.

Mae'r cyngor wedi cynyddu ei amrywiaeth o dechnoleg ddigidol a theleffoni awtomatig i'r aelodau hynny o'r cyhoedd y mae'n well ganddynt ddefnyddio dulliau hunanwasanaeth. Bydd hyn yn parhau yn 2016/17, gan gynnwys 'rhyngrwyd pethau' a'r defnydd o synwyryddion/dyfeisiau er mwyn bod yn ddinas gall.

**Meysydd i'w datblygu**

Ar 6 Ebrill 2016, daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i rym a chyda hon, yr angen i hyrwyddo annibyniaeth a lles, yn ogystal ag edrych ar wybodaeth, cyngor a chymorth o safon. Ceir gofyniad ynddi hefyd i ystyried taliadau uniongyrchol fel yr opsiwn sylfaenol. Byddwn felly'n ystyried datblygu mentrau a fydd yn caniatáu i bobl gael mwy o ddewis a rheolaeth megis taliadau uniongyrchol. Byddwn hefyd yn datblygu ein hymagwedd at ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y cyngor a chyda'n partneriaid. Felly mae angen i ni sicrhau ein bod yn gweithio'n well gyda'r trydydd sector i gyflawni'n dyheadau o ran adeiladu cymunedau cynaliadwy. Byddwn yn ceisio datblygu Strategaeth Trydydd Sector.

Mae sicrhau bod gennym y gwasanaethau ataliol/ymyrryd yn gynnar cywir yn parhau'n her. Mae'r cyngor felly'n mabwysiadu Strategaeth Atal gyffredinol i nodi'r cyfeiriad strategol a bydd yn llunio cynigion buddsoddi sy'n canolbwyntio ar ymyriadau allweddol a all atal gorfod troi at wasanaethau mwy drud yn ogystal â hyrwyddo lles ar yr adeg gynharaf. Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu ehangu Cydlynu Ardaloedd Lleol i 3 ardal arall.

Er bod perfformiad wedi gwella yn y maes ail-alluogi a chefnogi pobl yn y gymuned, mae angen i ni barhau i ddatblygu a mireinio'n model o ail-alluogi mewn gwelyau ail-alluogi preswyl ac yn y gwasanaeth gofal cartref. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ddarparu cefnogaeth a gyfyngir o ran amser i'w galluogi i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hyn, ynghyd â newidiadau eraill ar draws gwasanaethau cymunedol, yn ein helpu i gyflawni ein targedau o ran lleihau derbyniadau i ofal preswyl.

Roedd cynlluniau'r Gronfa Atal yn cynnwys cyfanswm o 6 phrosiect. O'r rhain, mae 2 wedi'u gwreiddio, mae 2 yn llwyddiannus ond heb eu gwreiddio ar y cam hwn ac mae 2 ar gam rhy gynnar i bennu'r llwyddiant. Roedd creu prosiectau newydd blaengar wedi cymryd amser, gyda newidiadau staff ac adnoddau'n cael eu symud yn arwain at rywfaint o oedi cyn dechrau'r prosiectau hyn. Nid oes modd mesur y canlyniadau y bwriedir i'r prosiectau hyn eu cyflawni yn y tymor byr bob amser. Lluniwyd adroddiad terfynol ac mae 4 prosiect yn parhau yn 2016/17. Gall mwy o fuddsoddiad mewn ymyrryd yn gynnar gyflawni gwell canlyniadau, gan atal ac oedi'r angen am wasanaeth a lleihau cost. Bydd y Gyllideb Atal yn cynorthwyo wrth dreialu'r prosiectau ychwanegol sy'n seiliedig ar ymagwedd buddsoddi i arbed, â'r nod o newid ymddygiad ac atal yr angen am wasanaethau arbenigol costus.

O ran trosglwyddo Asedau Cymunedol, er gwaethaf yr eglurder a ddarparwyd gan yr arweiniad newydd, mae hyn yn parhau'n broses adweithiol o hyd, a'r unig ffordd i ddatblygu materion ymhellach fyddai dechrau ar ymagwedd fwy rhagweithiol. Yn ystod 2016/17, cynigir ein bod yn parhau i fireinio'r polisi trosglwyddo asedau cymunedol presennol ac mewn meysydd gweithgarwch penodol, yn cysylltu â sefydliadau hysbys a rhai sydd eisoes yn bodoli i geisio'u cynorthwyo drwy'r broses.

Yn y cyngor, bydd pob gwasanaeth yn cael adolygiad comisiynu rhwng 2015 a 2017 i sicrhau ei fod yn addas i'r dyfodol ac yn cyflwyno i'r cyhoedd yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost effeithiol.

Fel enghraifft, canlyniad o'r adolygiad Rheoli Gwastraff a gynigiwyd oedd bod angen gwella perfformiad y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref ar ôl i ddadansoddiad ddangos bod yr holl Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref yn derbyn gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd, y dylai fod yn ailgylchadwy. Cynllunnir y gwelliant hwn ar gyfer 2016/17.

**Beth byddwn yn ei wneud ar gyfer 2016/17?**

Rydym yn bwriadu:

Adolygu cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r 'Gyllideb Atal' â'r nod o leihau'r galw am wasanaethau dros y tymor hwy.

Sicrhau bod gan gymunedau fynediad i ystod lawn o wasanaethau ataliol, sy'n eu galluogi i hyrwyddo eu lles, byw bywydau iach ac actif a'u hatal rhag bod angen mynediad i wasanaethau statudol lle bynnag y bo modd. Er mwyn gwneud hyn rydym yn bwriadu datblygu mwy ar Gydlynu Ardaloedd Lleol.

Hyrwyddo annibyniaeth er mwyn i bobl allu byw gartref neu yn y gymuned am fwy o amser a lleihau nifer y bobl sy'n symud i ofal preswyl. Er mwyn gwneud hyn, rydym am hyrwyddo opsiynau tai megis tai lloches a byw â chymorth.

Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros eu gofal eu hunain drwy fentrau megis taliadau uniongyrchol.

Gweithio gyda'r sectorau gwirfoddol, cymunedol, cyhoeddus a phreifat yn Abertawe a'r ardal ehangach i hyrwyddo gweithredu yn y gymuned, datblygu gallu a datblygu prosiectau i gymunedau reoli gwasanaethau ac asedau.

Datblygu Strategaeth Trydydd Sector a COMPACT yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gweithio a chyfathrebu â'r trydydd sector.

Gwella cydlynoldeb cymunedau fel bod pobl yn hoffi ble maent yn byw a'r bobl y maent yn byw gyda hwy.

Ymgymryd ag ymgyrchoedd ehangach i gynnwys y gymuned ynghylch rôl y cyngor yn y dyfodol a sut gallwn gefnogi preswylwyr, teuluoedd a chymunedau i gefnogi eu hunain.

Cynnwys cymunedau ymhellach i gynyddu cyfranogaeth cymunedau mewn gwasanaethau lleol.

Darparu gwybodaeth, cyngor ac arwyddion cymunedol i alluogi pobl i fanteisio ar adnoddau cymunedol a'u helpu i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Hyrwyddo perthnasoedd gweithio gwell gyda'n partneriaid a gloywi ein rolau fel bod ein perthnasoedd yn effeithiol ac yn ein galluogi i gynllunio'n well i ddiwallu anghenion ein preswylwyr.

Gwella cynllunio'r cyngor fel bod gennym ddealltwriaeth well o anghenion y gymuned.

## Rhan 3 – Gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn 2015/16

Bydd y cyngor bob amser yn ceisio cydweithredu â chynghorau eraill Cymru a phartneriaid er mwyn gwella gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, manteisio ar arbenigedd a/neu ddarparu effeithlonrwydd ac arbed costau.

Mae'r cyngor yn cydweithredu ag eraill ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau ac felly nid rhestr gynhwysfawr sydd yma; fodd bynnag, dyma'r partneriaethau allweddol:

## Rheoli Gwastraff

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Rydym yn gweithio gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr ar ateb rhanbarthol i wastraff bwyd.

Mae contract rhanbarthol dros dro ar waith wrth i gontract rhanbarthol tymor hir gael ei gaffael.

Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, Sir Benfro, Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr i archwilio dichonoldeb ateb trin gwastraff gweddilliol rhanbarthol a fydd yn defnyddio technoleg Ynni o Wastraff.

Bydd hyn yn arwain at ateb cost-effeithiol ac yn darparu ar gyfer anghenion gwaredu gwastraff bwyd y rhanbarth am y 25 mlynedd nesaf.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf:

**Caffael System Treuliad Anerobig (Gwastraff Bwyd)**

Dechreuodd contract 2 flynedd dros dro ym mis Awst 2015, a rhagwelir y bydd ateb tymor hir yn dechrau ym mis Awst 2017.

**Caffael Gwastraff Bwyd**

Cynhaliwyd trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau rhanbarthol eraill i gadarnhau bwriad i gymryd rhan mewn astudiaethau dichonoldeb. Trafodir cwmpas yr astudiaeth.

## Addysg - Gwasanaethau Gwella Ysgolion

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**

Mae'r cydweithio i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion drwy ‘ERW’, y consortiwm rhanbarthol sy'n gyfrifol am dde-orllewin a chanolbarth Cymru, yn parhau i gael ei ddatblygu a'i fireinio.

Rhennir chwe awdurdod y rhanbarth yn dri hwb gweithredol: Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot; Sir Gâr a Sir Benfro; Ceredigion a Phowys.

Mae Pennaeth Gwella Addysg a gyflogir ar y cyd yn arwain y gwasanaeth gwella ysgol i Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae'r system genedlaethol newydd i gategoreiddio ysgolion wedi cael ei chyflwyno ar draws y rhanbarth gan dimau o ymgynghorwyr herio.

Mae hyn yn cynyddu cysondeb wrth herio a chefnogi mewn ysgolion i'w helpu i wella.

Yn nhymor yr hydref 2015, roedd 37 o'r 93 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe'n "wyrdd" sef y categori am ysgolion effeithiol iawn, lle mae angen y lleiaf o gefnogaeth.

Mae targed i gynyddu hyn fel bod o leiaf 75% o ysgolion yn y categori 'gwyrdd' neu 'felyn' erbyn 2017.

## Adfywio Economaidd a Chynllunio - Dinas-ranbarth

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gâr a Sir Benfro.

Mae'r dinas-ranbarth yn dod â busnesau, llywodraeth leol ac amrywiaeth o bartneriaid ynghyd i weithio ar y nod cyffredin o greu ffyniant economaidd ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y dinas-ranbarth.

Mae Bwrdd y Dinas-ranbarth yn darparu arweiniad strategol ar gyfer y cydweithredu parhaus rhwng y pedwar awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru, y sector preifat ac addysg uwch/bellach.

Mae strategaeth economaidd ranbarthol wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol gan bob awdurdod, gan ddangos yr ymrwymiad i ganolbwyntio ar flaenoriaethau rhanbarthol, gweithio ar y cyd a chyflwyno.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe (DRBA) wedi cyflwyno cynnig Bargen Ddinesig lefel uchel i Ganghellor y Trysorlys a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau, sy'n ceisio "mynd i'r afael â'r heriau strwythurol sy'n dal yr economi'n ôl ac yn lleihau'r bwlch rhwng ein perfformiad a gweddill y DU o ran creu cyfoeth".

Mae cynnig Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn seiliedig ar ddatblygu tri llinyn integredig: ynni, iechyd a lles, a chyflymu economaidd.

Yn ei hanfod, mae'n ceisio arloesi, profi, treialu a masnachu atebion sy'n seiliedig ar y rhyngrwyd a fydd yn trawsnewid dyfodol y sectorau hyn. Yn fwy penodol, bydd y Fargen Ddinesig yn: -

- Creu "System Ynni'r dyfodol" gall ac effeithlon a fydd yn integreiddio sylfaen asedau sylweddol y rhanbarth mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chonfensiynol a phrofi a masnacheiddio Systemau Ynni'r Dyfodol;

- Datblygu iechyd a lles drwy rwydwaith o "barciau meddygol", canolfannau lles ac asedau eraill Gwyddoniaeth Iechyd. Wrth adeiladu ar y bensaernïaeth ddigidol newydd, bydd yn trawsnewid cyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth ac yn cyfrannu at ddatblygu meddygaeth genomaidd mewn dadansoddeg a diagnosteg yn y DU drwy atebion sy'n seiliedig ar rwydwaith, a;

- Bydd hefyd yn gosod Bae Abertawe fel porth rhyngrwyd rhyngwladol rhwng Llundain a Gogledd America drwy ddatblygu isadeiledd mewn partneriaeth â'r sector preifat a fydd ar yr un pryd yn sefydlu Abertawe a'i chefnwlad fel 'Dinas Arloesedd'.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi derbyn cynnig Bargen Ddinesig Bwrdd DRBA.

Mae'r cynnig yn grynodeb pwysig o weledigaeth DRBA, ac mae gwaith ychwanegol bellach ar y gweill i bennu rhaglen o brosiectau allweddol a fydd yn cyflwyno uchelgais y bwrdd.

## Cludiant

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
O 1 Ebrill 2014 bu newid yn yr arian y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi ar gyfer gwasanaethau bysus a chyflwynwyd Grant Cynnal Gwasanaethau Bysus newydd.

Telir y grant hwn i Abertawe ar ran y 4 cyngor yn ne-orllewin Cymru. Mae'r cynghorau wedi cydweithio i ddatblygu'r cynllun a'i roi ar waith. Mae'r cynllun hwn yn cynnal gwasanaethau cludiant cyhoeddus a chymunedol ar draws y rhanbarth.

Mae'r cyngor wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a First Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf i sicrhau y cynllunnir gwasanaethau cludiant cyhoeddus aml, o safon a'u rhoi ar waith er mwyn cefnogi'r symudiadau mawr gan staff a myfyrwyr rhwng campws Singleton a'r Bae.

Mae'r gwasanaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n teithio i gampws y Bae yn gwneud hynny ar fysus. Mae ymagwedd gweithio ar y cyd debyg yn cychwyn i gefnogi datblygiad campws newydd ar wahân gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae Dinas a Sir Abertawe hefyd wedi cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i greu 'Map Beicio ar gyfer Bae Abertawe'. Mae datblygu'r map hwn ar y cyd wedi creu adnodd sy'n dangos y llwybrau cerdded a beicio sydd ar gael ar draws y ddau awdurdod lleol, a'i ddiben yw hyrwyddo iechyd a lles y boblogaeth leol yn ogystal â chefnogi hyrwyddo mesurau cludiant cynaliadwy ymhellach.

Mae cynllun llogi sgwteri rhanbarthol, Olwynion i'r Gwaith, wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gâr i gynorthwyo'r rheiny nad ydynt yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, addysg na hyfforddiant oherwydd anawsterau cludiant.  Mae rhan gyntaf y cynllun wedi dechrau ac ystyrir ei ehangu

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Cyflwynwyd strategaeth rhwydwaith rhanbarthol ar gyfer cludiant cyhoeddus i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014 a chafodd hon ei defnyddio (ynghyd â'r tair strategaeth ranbarthol eraill ar draws Cymru) i gyfeirio gwaith y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau a sefydlwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Lluniwyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd gan gynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gâr a Sir Penfro, gan nodi'r prif faterion a blaenoriaethau trafnidiaeth i'w hystyried er mwyn cyflwyno'r cynllun yn ystod 2015/20. Cafodd y cynllun ei gyflwyno ym mis Ionawr 2015 a'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

## Cyflwyno Troi Tai'n Gartrefi, cronfa fenthyciadau eiddo gwag Llywodraeth Cymru

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**

Mae Cyngor Abertawe wedi gweithio gyda chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr i sefydlu cronfa fenthyciadau ar gyfer ymgeiswyr sydd am atgyweirio eiddo gwag neu eu troi'n gartrefi.

Dyma'r canlyniadau y bwriedir eu cyflawni:

- Cynyddu cyflenwad tai fforddiadwy i'w rhentu neu eu gwerthu.
- Lleihau nifer yr eiddo gwag a/neu mewn cyflwr gwael.
- Creu cronfa fenthyciadau ailgylchadwy. Pan ad-delir yr arian, gellir ei ddefnyddio i roi rhagor o fenthyciadau.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Defnyddiwyd cronfeydd Llywodraeth Cymru i roi 30 o fenthyciadau i berchnogion eiddo gwag yn Abertawe ac mae dau wedi cael eu had-dalu hyd yn hyn.

## Partneriaeth â Dŵr Cymru

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru i ymdrin â draeniau heb eu cysylltu'n gywir i sicrhau bod dŵr glaw a charthion yn llifo i'r rhwydwaith cywir; rydym hefyd yn gweithio gyda hwy i reoli poblogaethau llygod mawr yn y system garthffos.

## Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Porthiant Gorllewin Morgannwg mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae hyn wedi arwain at raglen waith a gydlynir ar draws y ddau gyngor, sy'n sicrhau bod y mangreoedd sy'n debygol o gael eu harchwilio'n cael eu cwblhau yn unol â risg.

Mae system o weithio rhanbarthol yn ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru ac yn caniatáu iddynt adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd fod rheoliadau porthiant anifeiliaid yn cael eu rhoi ar waith yn iawn i ddiogelu cynhyrchu bwyd.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Cwblhawyd y rhaglen archwilio ar gyfer 2015/16 yn llawn ar draws y rhanbarth. Mae'r rhaglen archwilio ar gyfer 2016/17 yn cael ei pharatoi a'i rhoi ar waith ac adroddir amdani bob chwarter i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru.

## Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn cynnwys arweinwyr cynrychioliadol o Ddinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Sefydlwyd y bartneriaeth ranbarthol yn y lle cyntaf fel rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol mewn ymateb i'r galw parhaus am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, a chydnabyddiaeth bod gweithio ar y cyd ar draws cwmpas y Bwrdd Iechyd yn cyflawni cysondeb cyflwyno ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a hefyd, rannu arfer da.

Roedd hefyd mewn ymateb i'r ymgyrch polisi ynghylch gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn 2012, â'r diben o integreiddio a rhannu gwasanaethau a bod yn fwy effeithiol wrth gyflawni'r canlyniadau gorau posib i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar draws y rhanbarth.

I ddechrau, roedd y rhaglen yn cynnwys sawl ffrwd waith o ddiddordeb cyffredin i bartneriaid craidd, ond ar ôl adolygiad llywodraethu yn 2013, cydnabuwyd y dylid rhannu'r rhaglen yn ddwy haen.

Mae 'haen un' yn canolbwyntio ar brosiectau trawsnewid allweddol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Grŵp Arweinyddiaeth Bae'r Gorllewin a Fforwm Partneriaeth Bae'r Gorllewin; 'Haen dau' yw'r ffrydiau gwaith hynny sy'n cyflwyno gweithredu cydweithredol 'busnes fel arfer'.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae'r 5 prosiect trawsnewidiol yn 'Haen 1' bellach wedi'u lleihau i 4:
Gwasanaethau Cymunedol (gwasanaethau pobl hŷn) - rhoi'r gwasanaeth gofal canolradd ar waith a'i werthuso a symud i gam pellach o wasanaethau cymunedol; Atal a lles, ac yn benodol, wybodaeth, cyngor a chymorth; cydlynu ardal/cymuned leol; adnodd menter gymdeithasol a lles.

Contractio a chaffael - mae prosiect trawsbynciol perthnasol yn sail i rai o rannau comisiynu'r rhaglen.

Datblygu'r gweithlu yw'r ffrwd waith olaf.

Hefyd, mae Bwrdd Arweinyddiaeth Bae'r Gorllewin yn goruchwylio rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') ar waith yn rhanbarthol.

Dyma'r meysydd gwasanaeth **Haen 2** sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd yn y strwythur llywodraethu drafft:

- Bwrdd Cynllunio Ardal Ranbarthol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.
- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol - Cefnogi Pobl.
- Byrddau Rhanbarthol Diogelu Oedolion a Phlant.
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol.
- Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICiD).

Ceir cydweithredu hefyd ar ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r:

- Prosiect Anabledd Dysgu.
- Prosiect Iechyd Meddwl

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nodwyd Cydweithfa Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Bae'r Gorllewin â'i phartneriaid fel modd o ddatblygu integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol fel a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). O dan y Ddeddf, bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau megis:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc;
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd;
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.
- Cyflwyno trefniad cyllideb a rennir ar gyfer cartrefi gofal erbyn mis Ebrill 2018.

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**

Daeth y trefniadau partneriaeth yn statudol ym mis Ebrill 2016. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Ddeddf, datblygwyd cynllun rhoi ar waith rhanbarthol i nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu y mae eu hangen i gefnogi cyflawni.

Mae rhai o ofynion a dyletswyddau arwyddocaol eraill y Ddeddf yn cynnwys:

- Hyrwyddo lles ac atal yn y ddeddf gyda'r nod o oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chefnogaeth.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn well o ran sut y gellir **cael mynediad i wasanaethau a phrosesau mwy cadarn ar gyfer mynegi pryderon diogelu.**

- Mae gan ddinasyddion lais cryfach a mwy o reolaeth dros y mathau o ofal a chefnogaeth y maent yn eu derbyn, a gofalwyr dros y gefnogaeth maent yn ei derbyn.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae Abertawe'n gwneud cynnydd da wrth roi ein cynlluniau integreiddio rhanbarthol a lleol ar waith trwy gydweithio'n agos â chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr a'n partneriaid iechyd, BIPABM. Rydym wedi adolygu'n trefniadau derbyn i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Eleni mae Abertawe wedi lansio 3 hwb rhwydwaith ardal (gogledd, gorllewin a chanolog), gan ddod â gweithwyr proffesiynol ynghyd er mwyn darparu cefnogaeth uniongyrchol i bobl fel y gallant reoli eu gofal eu hunain a thrwy gysylltu â'r amrywiaeth llawn o wasanaethau gofal cychwynnol, megis meddygfeydd a chanolfannau iechyd.

Yn ogystal â datblygu'r 3 canolfan, mae Bae'r Gorllewin wedi buddsoddi'r Gronfa Gofal Canolraddol yn y datblygiadau canlynol:

- Rydym wedi datblygu ymagwedd 'o fewn cyrraedd' mewn ysbytai i nodi a chynnig cefnogaeth gyflym i'r cleientiaid hynny y mae angen cefnogaeth arnynt ar ôl iddynt adael yr ysbyty.
- Cynyddu staff ein Tîm Gofal Cartref a'n gallu i ymateb i anghenion claf.
- Gwella stociau a chyflenwadau i gefnogi'r angen i ddarparu cyfarpar yn gyflym.
- Gweithiwr achos i gefnogi nodi anghenion sy'n gysylltiedig â thai, gan gynnwys y rhai y mae angen cefnogaeth arnynt gydag atgyweiriadau neu addasiadau tai.
- Cynyddu nifer y Gwelyau Asesu a nifer y bobl sy'n derbyn cefnogaeth ailalluogi.

Mae paratoi'r gweithlu ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru ar waith yn brif flaenoriaeth, ac mae Cynllun Dysgu a Datblygu Rhanbarthol wedi'i roi ar waith i sicrhau bod yr holl weithwyr rheng flaen yn llwyr ymwybodol o 11 rhan y Ddeddf, y rheoliadau a'r codau ymarfer.

Mae'r Bwrdd yn cynnal asesiad poblogaeth yn unol ag adran 14 y Ddeddf, a bydd yn gorfod sicrhau bod strategaeth gomisiynu mewn ymateb i hyn ar gyfer pob ardal awdurdod lleol a phartner.

Drwy ddarparu arweinyddiaeth strategol i sicrhau bod gwybodaeth ranbarthol a lleol yn cael ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol i wella cyflwyno gwasanaethau.

## Bwrdd Cynllunio Ardal Ranbarthol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**
Nod Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin bellach yw darparu swyddogaeth weithredol wrth gynorthwyo awdurdodau cyfrifol a phartneriaid perthnasol eraill i gyflawni eu dyletswyddau statudol wrth gyflwyno Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Ailgomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i gefnogi gwell canlyniadau i bobl ar draws y rhanbarth a defnyddio cronfeydd presennol yn effeithlon.

## Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol - Cefnogi Pobl

Nod a ffocws cyffredinol y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) yw darparu cyngor i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid y rhanbarth, a thrwy Fwrdd Ymgynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (BYCCP), i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyflwyno'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon yn cael eu cyflwyno

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**
Dyma enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth ym Mae'r Gorllewin â'r amrywiaeth eang o asiantaethau sy'n rhan o'r gydweithfa, er enghraifft, y Bwrdd Iechyd, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu, Timau Tai a Digartrefedd, y rheiny ohonom sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r holl randdeiliaid perthnasol sy'n hanfodol i lwyddiant Rhaglen Cefnogi Pobl Bae'r Gorllewin.

Mae'r Pwyllgor wedi llunio Cynllun Comisiynu Rhanbarthol (CCRh) sy'n ystyried blaenoriaethau lleol ac yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol i ddiwallu anghenion lleol yn ogystal â'r angen am ddyrannu grant yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Drwy weithio gyda'i gilydd, mae'r pwyllgor wedi nodi rhai meysydd blaenoriaeth a allai roi gwell canlyniadau iddynt a gwneud i'n harian fynd ymhellach.
Dyma nhw:

- Cael mwy o opsiynau byw â chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl, ac opsiynau gwell.
- Datblygu opsiynau fel nad yw pobl yn gorfod cysgu ar y stryd.
- Dewisiadau eraill i ddefnyddio llety gwely a brecwast fel llety dros dro.
- Helpu mwy o bobl â dementia i fyw yn y gymuned.
- Datblygu opsiynau i bobl hŷn a chanddynt broblemau camddefnyddio sylweddau/iechyd sy'n cyd-ddigwydd ac maent yn gymhleth.

- Opsiynau i bobl ag anableddau dysgu i ddod mor annibynnol ag y gallant.

## Diogelu Rhanbarthol

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin yn cynnwys Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Ceir bwrdd rhanbarthol ar gyfer plant ac un ar gyfer oedolion.

Dechreuodd Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin (BDPBG) weithredu ar 1 Ebrill 2013. Byrddau diogelu plant yw'r prif ddull statudol o gytuno ar sut bydd y sefydliadau perthnasol ym mhob ardal yn cydweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac am sicrhau effeithiolrwydd yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin (BDOBG) yn gweithio i gadw oedolion yn ddiogel a sicrhau y caiff oedolion sydd mewn perygl o niwed eu diogelu rhag pob math o gamdriniaeth. Gellir cael sawl ffurf ar gam-drin, gan gynnwys trais rhywiol, corfforol, geiriol, ariannol, a'r hyn sy'n gysylltiedig â phriodasau gorfodol ac anrhydedd.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Cyhoeddodd BDPBG ei adroddiad blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2014 a hwn oedd y BDP cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Mae ganddo nifer o flaenoriaethau strategol a amlinellir yn ei gynllun busnes. Mae'r rhain yn cynnwys esgeuluso, babanod sy'n derbyn gofal, camfanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin yn y cartref a gwefrau cyfreithlon (sylweddau seicoweithredol newydd).

Un o flaenoriaethau strategol BDOBG yw cam-drin yn y cartref ymhlith pobl hŷn ac yn ddiweddar derbyniodd y bwrdd gyflwyniadau ar hyn gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae blaenoriaethau strategol eraill y bwrdd yn cynnwys rhoi rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Mae'r ddeddf yn ymdrin â diogelu a gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Galluedd Meddwl a Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae'r bwrdd hefyd yn gweithio gyda rhaglen ehangach Bae'r Gorllewin i helpu i roi'r argymhellion ar waith a nodwyd yn adolygiad cartrefi gofal Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

## Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Rhanbarthol

Mae'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaethau amlasiantaeth statudol, y mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i gydweithredu er mwyn sicrhau

gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid priodol i'w hardal. daw'r cyllid i'w hariannu o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid statudol. (e.e. Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Iechyd).

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir?**
Mae datblygu Bae'r Gorllewin yn wasanaeth rhanbarthol wedi dilyn ymagwedd gyson; drwy ddod â chysondeb i gyflwyno, a chynyddu rhannu adnoddau i osgoi dyblygu. Cynhaliwyd y Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid Bae'r Gorllewin cyntaf ar 29 Mai, 2014, a daeth yr holl fyrddau rheoli lleol i ben.

Cytunir ar Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol gan fwrdd rheoli Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid Bae'r Gorllewin a'i gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI).

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Mae gweithio gyda'i gilydd wedi cynyddu ystod yr ymyriadau y gellir eu cyflwyno gan y gwasanaeth. Gwnaed cynnydd da i ddod â'r tri Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid presennol sef Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ynghyd fel gwasanaeth rhanbarthol.

Mae'r canlynol ymysg y canlyniadau perfformiad pwysicaf ar gyfer y GTI Rhanbarthol:

- Lleihau nifer y rhai sy'n dod i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf.
- Lleihau aildroseddu.
- Defnyddio llai ar y ddalfa.
- Mynediad i wasanaethau, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae canlyniadau perfformiad cynnar wedi dangos nad yw troseddwyr ifanc wedi dioddef unrhyw niwed oherwydd y newidiadau. O ran disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd y GTI yn lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i'r system cyfiawnder ieuenctid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cyflawnwyd hyn gan Wasanaeth Bae'r Gorllewin y llynedd - gan leihau'r nifer ar draws y rhanbarth 36.6% o'i gymharu â gostyngiad cyfartalog o 19% ar gyfer de Cymru a chyfartaledd o 31% ar gyfer Cymru.

## Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi plant a theuluoedd

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe'n canolbwyntio ar well canlyniadau i blant ag angen gofal a chefnogaeth, a thrwy adeiladu model

cynaliadwy sy'n seiliedig ar ragoriaeth mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Er mwyn bod yn y sefyllfa orau i roi'r codau ymarfer a'r arweiniad newydd sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith, a chael effaith gadarnhaol ar fywydau'r plant mwyaf diamddiffyn a'u teuluoedd yn Abertawe, mae angen i'r cyngor weithio'n agos gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau teuluol i gyd-fynd â lefelau angen.

Dim ond trwy bartneriaeth lwyddiannus y gall Abertawe gyflawni canlyniadau llwyddiannus i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Abertawe. Gweithio gyda phartneriaid a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod ymagweddau cyffredin a rennir at ymdrin â lles plant, diogelwch a gweithio gyda theuluoedd mewn perygl.

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a beth yw'r canlyniadau a fwriedir i blant a theuluoedd?**

**a) Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd Rhanbarthol**

Prif ddiben y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICiD) yw sicrhau y darperir gwasanaethau a chefnogaeth i deuluoedd er mwyn diogelu lles eu plant a'u galluogi i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.

Egwyddor allweddol yw mai'r ffordd orau o ofalu am blant yw eu cadw gyda'u teuluoedd, a'u rhieni'n chwarae rhan lawn yn eu bywydau - oni bai fod angen ymyriad gorfodol. Bydd gweithio gyda theuluoedd yn gynt, cyn i blant fod mewn perygl o orfod mynd i ofal, yn galluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i feithrin contract cymdeithasol â theuluoedd i ennyn eu hymrwymiad a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth iawn i oresgyn eu hanawsterau.

Daeth y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICiD) yn weithredol ym mis Ebrill 2013, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd y cyngor arweiniol ar ran partneriaid Bae'r Gorllewin.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol wedi'u hadolygu'n ffurfiol yn ddiweddar. Mae llawer o ymyriadau arbenigol y GICiD bellach yn rhan o'r ymagwedd brif ffrwd at arfer gwaith cymdeithasol wrth weithio gyda theuluoedd ar draws y rhanbarth, er enghraifft, yn Abertawe o fewn Signs of Safety ac ar draws continwwm y gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

**b) Gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol**

Cychwynnwyd Prosiect Mabwysiadu Rhanbarthol dan Raglen Bae'r Gorllewin a'i ariannu drwy'r grant cydweithredu rhanbarthol yn 2013/14 a 2014/15. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin am geisio cynyddu recriwtio

mabwysiadwyr lleol 100% drwy ymagwedd fesul cam o ystyried nifer mawr y plant sy'n derbyn gofal ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin. Gall y ffocws ehangach hwn leihau'n sylweddol yr amser y mae plant yn ei dreulio'n aros am leoliad mabwysiadol.

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi ymgymryd â rôl yr awdurdod cynnal ers mis Ebrill 2014, penderfyniad a gymeradwywyd gan Gabinetau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Roedd Cabinetau'r tri awdurdod lleol wedi ystyried adroddiad a oedd yn manylu'r model ariannol, strwythur y gwasanaeth, cyd-baneli a chyd-leoli staff, cyn cymeradwyo'r penderfyniad.

Dechreuodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol weithredu ym mis Ebrill 2015. Penodwyd rheolwr rhanbarthol a chyd-leolwyd staff mabwysiadu o'r 3 awdurdod lleol yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot ym mis Chwefror 2015. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Paneli Mabwysiadu Rhanbarthol a oedd yn disodli paneli unigol yr awdurdodau lleol.

Cytunwyd ar aelodaeth y Bwrdd Rheoli/Pwyllgor Rhanbarthol sydd wedi disodli'r Grŵp Llywio presennol, ac mae'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yng nghyfarwyddiadau, pwerau a rheoliadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015. Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr Iechyd ac Addysg.

Mae canlyniadau perfformiad cynnar yn dangos tuedd gadarnhaol ar gyfer y gwasanaeth hwn. Rydym hefyd yn cael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r amser y mae'n cymryd i leoli plant o'r adeg y rhoddir y Gorchymyn Lleoli i ddyddiad y lleoliad. Mae ein cyfradd newid ymholiadau i gymeradwyo yn un o'r goreuon yng Nghymru. Fel gyda rhanbarthau eraill yng Nghymru, ceir rhai DP lle mae angen gwelliant, fodd bynnag, mae Bae'r Gorllewin wedi gwneud yn dda yn y DP allweddol hyn o ystyried faint o newid y mae staff wedi gorfod ymdopi ag ef mewn cyfnod byr iawn.

**Pa gynnydd rydym wedi'i wneud tuag at y canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a theuluoedd?**

Drwy'r model gwasanaeth a rennir hwn, rydym yn lleihau'r galw am ymyriad statudol - drwy hyrwyddo mynediad i gontinwwm o wasanaethau cymorth i deuluoedd drwy drefniadau drws ffrynt effeithiol. Hefyd i ymateb i bryderon a rennir megis effaith cam-drin yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau ar fywyd teulu a diogelwch plant.

Mae Abertawe'n falch o fod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i roi Signs of Safety ar waith ac i wneud cynnydd sylweddol ar draws cynifer o feysydd gwasanaeth: wrth y drws blaen, mewn gwaith achos amddiffyn plant cymhleth, gweithio gyda phlant iau a hŷn sy'n derbyn gofal i ddod o hyd i rywle parhaol, trwy wasanaethau cefnogi teuluoedd a chyda gofalwyr maeth i gyflawni cadernid mewn lleoliadau ac mewn gwaith cynadledda ac adolygu.

**Datblygiadau pwysig eraill:**

**Cydlynu Ardaloedd Lleol/Cydlynu Cymunedau Lleol**
Mae'r model blaengar hwn yn cydnabod y gellir cefnogi pobl ag anghenion gofal a/neu gefnogaeth drwy fanteisio ar eu cryfderau eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y model hwn wedi'i chofnodi'n dda ac mae'n dangos bod yr ymagwedd hon yn lleihau'r galw am wasanaethau gofal.

Mae CBS Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe'n ymrwymo i'r model 'Cymdogaethau Cynhwysol' o Gydlynu Ardaloedd Lleol ar hyn o bryd (www.inclusiveneighbourhoods.co.uk), wrth i Ben-y-bont ar Ogwr ddatblygu'r ymagwedd Cydlynu Cymunedau Lleol.

## Cyfreithlon

**Sut mae'r cyngor wedi arfer ei bwerau a pha ganlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**


- Cymryd rhan yn barhaus yn y Gwasanaeth Cyfreithiol a Rennir.
- Gweithio gyda'r Tîm Cyfreithiol Rhanbarthol gyda'r nod o atal gwaith rhag cael ei anfon i'r sector preifat a datblygu arbenigedd mewnol.
- Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos o ran
    - caffael gwastraff bwyd ar y cyd
    - Bae'r Gorllewin.
    - Morlyn Llanw
    - Bwrdd Iechyd Lleol.
- Gwasanaeth Crwner ar y Cyd gyda Chastell-nedd Port Talbot.
- Porth Cyfreithiol sy'n caniatáu i ddogfennau cyfrinachol gael eu rhannu.
- Gweithio mewn partneriaeth yn lleol â'r llys/farnwriaeth - mynd i gyfarfodydd grwpiau defnyddwyr rheolaidd a chyfarfodydd â'r farnwriaeth.

**Pa gynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni?**
Y bwriad yw lleihau'r gwaith sy'n cael ei anfon i'r sector preifat a datblygu arbenigedd mewnol, ac mae hyn ar y gweill.

## Rhan 4 – Gwybodaeth gyhoeddus a'i defnydd

Cyflwyniad
Mae awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe'n cyflwyno ystod eang o wasanaethau i bobl Abertawe. Mae'n rhaid i'r cyngor gynllunio pa wasanaethau y bydd yn eu cyflwyno gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Abertawe a'u bod yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.

**Cynlluniau Strategol a Gwella**
Amlinellir fframwaith cynllunio a gwella corfforaethol y cyngor yn y diagram isod.




Adolygodd y cyngor ei drefniadau gwella perfformiad yn 2014/15 gyda'r nod o'u gwneud *'yn symlach, yn haws ac yn well'.* Roedd hyn yng nghyd-destun helpu'r cyngor i wynebu'r heriau ariannol sylweddol a achosir gan fesurau cyni wrth sicrhau bod blaenoriaethau allweddol y cyngor yn cael eu cyflawni.

Bwriedid cyflawni'r nod trwy ddau brif fodd cysylltiedig:

a) Fel rhan o'r strategaeth *Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol*, nodi nifer bach o flaenoriaethau corfforaethol i'w mynegi mewn cynllun corfforaethol newydd.
b) Cyflwyno'r *'Cerdyn Sgorio Cytbwys'* yn sail i fframwaith gwella perfformiad newydd y cyngor.

Mae'r prif elfennau bellach yn eu lle:

a) Mae gan y cyngor weledigaeth a strategaeth glir yn *Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol*.

b) Cafodd y **Cynllun Corfforaethol newydd**, *Cyflwyno dros Abertawe* sy'n nodi'r 5 blaenoriaeth allweddol, ei fabwysiadu gan y cyngor ym mis Chwefror 2015. 5 blaenoriaeth allweddol y cyngor yw:

1) Diogelu pobl ddiamddiffyn
2) Gwella cyrhaeddiad disgyblion
3) Dinas ac economi fywiog llawn addewid
4) Trechu tlodi
5) Adeiladu cymunedau cynaliadwy

Gyda'i gilydd, mae *Abertawe Gynaliadwy* a'r Cynllun Corfforaethol yn cynrychioli fframwaith cyflwyno strategol y cyngor. Bwriedir y cyngor i'r Cerdyn Sgorio Cytbwys fod yn *system gyflwyno strategol* a fydd yn ceisio troi gweledigaeth a strategaeth y cyngor yn amcanion a mesurau gwirioneddol. Fel rhan o hyn, caiff y cerdyn sgorio cytbwys ei ddefnyddio i ledaenu'r strategaeth gorfforaethol i lawr trwy'r gyfarwyddiaeth, ei gwasanaethau a'i thimau a hyd yn oed i mewn i amcanion gweithwyr trwy arfarniadau staff.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni Datblygiad Cynaliadwy. Mae'n rhaid i'r cyngor ddatblygu 'Amcanion Lles' a gyhoeddir yn ei gynllun corfforaethol erbyn 1 Ebrill 2017. Bydd y rhain yn dangos sut mae'r cyngor yn mwyafu ei gyfraniad i'r 7 nod cenedlaethol a'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy', a adwaenir fel y 5 ffordd o weithio. Mae mwy am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gael yma:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - Animeiddiad Byr

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - mwy o wybodaeth

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel sy’n ofynnol yn ôl Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol i bennu'r blaenoriaethau cyfunol ar gyfer holl bobl Abertawe. Cyhoeddir y cyd-flaenoriaethau hyn yng **Nghynllun Un Abertawe**, sydd wedyn yn cael ei gyflwyno, ei fonitro a'i ddiweddaru ynghyd â phartneriaid.

Mae'r cyngor yn destun y **Fframwaith Gwella Perfformiad Cenedlaethol**. Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn pennu **mesurau perfformiad** statudol, y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru adrodd amdanynt. Gellir gweld crynodeb o berfformiad y cyngor yn erbyn mesurau perfformiad cenedlaethol nes ymlaen yn y ddogfen hon. Mae fframwaith ar gyfer perfformiad cenedlaethol yn cael ei ystyried ar gyfer 2017/18.

**Rheoli risgiau**
Mae cyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau fel hyn, a hynny'n aml yn ôl fframweithiau rheoleiddio ar adeg pan fo cyllidebau ac adnoddau dan straen sylweddol, yn golygu bod y cyngor yn gorfod ymdopi'n fwyfwy ag ansicrwydd a rheoli newid.

Ar yr un pryd, mae'r cyngor hefyd dan bwysau cynyddol i gyflwyno gwasanaethau gwell mewn ffyrdd newydd a blaengar.

Mae hyn yn golygu bod **risgiau** (a chyfleoedd) yn anorfod ac mae'n rhaid eu rheoli'n effeithiol.

Caiff risgiau eu rheoli ar lefelau gwahanol yn y cyngor. Caiff risg ei rheoli mewn prosiectau unigol. Mae risgiau i wasanaethau, adrannau a rhai corfforaethol yn cael eu rheoli drwy gofrestri risgiau gwasanaethau, adrannol a chorfforaethol.

Mae risgiau sy'n effeithio ar gymunedau cyfan, megis llifogydd, yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan y cyngor a'i bartneriaid drwy eu trefniadau cydnerthu.

Mae gwybodaeth - ar bob ffurf - yn ased gwerthfawr i'r cyngor ac mae'n bwysig bod yr holl risgiau i wybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys manylion y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth, rheoli gwybodaeth, defnyddio'r rhyngrwyd a'r swyddfa.

**Monitro perfformiad a chraffu arno**
Mae'n bwysig bod cyflwyno cynlluniau a gwasanaethau'r cyngor yn cael ei fonitro o safbwynt effeithiolrwydd.

Mae'r cyngor, trwy'r cabinet a'r byrddau craffu, yn monitro ac yn adrodd am berfformiad gwasanaethau yn erbyn targedau cytunedig yn chwarterol ac yn flynyddol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i ystyried unrhyw broblemau a'u datrys a hefyd i gyfeirio penderfyniadau ar wario a sut mae adnoddau eraill yn cael eu dyrannu.

Mae'r cyngor hefyd yn ymgynghori ac yn cysylltu â thrigolion Abertawe ac eraill i gael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Mae cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i wella gwasanaethau.

Mae craffu'n galluogi aelodau anweithredol i ddwyn cabinet y cyngor i gyfrif am y penderfyniadau mae wedi'u gwneud a pherfformiad gwasanaethau'r cyngor.

Maent yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet a phobl eraill yn y cyngor sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau gwell. Mae gwaith craffu wedi dechrau canolbwyntio'n arbennig ar flaenoriaethau allweddol y cyngor.

Yn Abertawe, mae craffu'n cael ei reoli gan un pwyllgor, sef Pwyllgor y Rhaglen Graffu, sy'n dyrannu gwaith i dri math o grŵp tasg a gorffen anffurfiol:

- Paneli Ymchwilio: Mae'r rhain yn cynnal ymchwiliadau manwl i feysydd polisi neu wasanaeth. Roedd ymchwiliadau yn 2015/16 yn cynnwys: llywodraethu ysgolion, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, adeiladu cymunedau cynaliadwy. Mae pob un o'r pynciau hyn yn ymwneud yn agos ag un o bum blaenoriaeth gorfforaethol y cyngor.

- Paneli Perfformiad: Mae'r rhain yn monitro ac yn herio perfformiad yn barhaus. Mae pum panel o'r math hwn ar hyn o bryd: ysgolion; gwasanaethau i oedolion, gwasanaethau plant a theuluoedd; gwella gwasanaethau a chyllid; a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Gweithgorau: Mae'r rhain yn ddarnau byr unigryw o waith nad oes angen mwy nag un neu ddau gyfarfod arnynt fel arfer. Dyma rai o'r meysydd yr ymdriniwyd â hwy'n ddiweddar: ceffylau ar dennyn, gorchmynion cadw coed a digwyddiadau dinesig.

Mae'r Tîm Craffu wedi helpu’r cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau allweddol mewn sawl ffordd:

- Mae'r ymchwiliad i *Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy* yn dod i ben
- Mae'r ymchwiliad i *Drechu Tlodi* newydd ddechrau.
- Bydd yr adroddiad blynyddol Diogelu'n cael ei gynnwys fel eitem reolaidd ar Bwyllgor y Rhaglen Graffu.
- Mae Panel Craffu Ysgolion yn parhau i gyfrannu at gyrhaeddiad disgyblion drwy ei waith gydag ysgolion unigol.
- Mae ymchwiliad newydd i Bartneriaethau a Chydweithio'n cychwyn.

Mae'r newyddion diweddaraf am waith craffu, gan gynnwys manylion cyfarfodydd i'w cynnal ar gael ar y wefan ganlynol: www.craffuabertawe.co.uk/

Mae'r pwyllgor craffu'n llunio adroddiad blynyddol bob blwyddyn. Cynhyrchir yr adroddiad hwn ar ffurf cerdyn sgôr canlyniadau ac mae'n darparu ystod o fesurau a ddefnyddir i olrhain swm, ansawdd a chanlyniadau gwaith craffu'r cyngor.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
Mae'r cyngor yn ymrwymedig i drin pobl yn deg ac yn unol â'u hanghenion ym mhob gwasanaeth. Mae deddfwriaeth (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cymraeg 2011 a Mesur y Gymraeg 2011) yn parhau i ddarparu ffocws ar gyflawni gwelliannau a chanlyniadau. Gwnaed y gwaith canlynol yn 2015/16:

- Datblygu a mabwysiadu'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-2020) diwygiedig, sy'n ymgorffori'n hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP.

- Adolygiad blynyddol terfynol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-16), sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion cydraddoldeb.

- Rydym yn parhau i ddefnyddio'n proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) estynedig, sy'n cynnwys CCUHP, gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Defnyddir y broses hefyd i asesu effeithiau cydraddoldeb cyllideb y cyngor ac mae'n adnodd gwerthfawr i dynnu sylw at faterion posib ynghylch cydymffurfio rheoleiddiol.

- Lluniwyd adolygiad blynyddol olaf ein Cynllun Iaith Gymraeg a'r adroddiad blynyddol ar 'Mwy na Geiriau' (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol). Disodlwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg gan Safonau'r Gymraeg (fel y'u diffiniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a chyflwyno hawliau cyfreithiol i ddinasyddion ddefnyddio'r Gymraeg) a roddwyd ar waith yn lleol - er ein bod yn aros i rai pwyntiau gael eu cwblhau.

- Mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, rydym yn parhau i gydlynu a datblygu ymhellach y trefniadau sydd gan y cyngor ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig a du (BME), a Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) Abertawe drwy ein fforymau BME ac LGBT. Rydym hefyd yn hwyluso Grŵp Cydgysylltu Anableddau.

- Ers mis Medi 2013, pan ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu dyletswydd 'sylw dyladwy' o ran hawliau plant, rydym wedi datblygu Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Mae Cynllun Gweithredu CCUHP 2015-16 wedi'i ddatblygu sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir ar gyfer y flwyddyn ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at Hawliau Plant.

- Mae Cynllun Cyflwyno Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2014-16 yn cynnwys canlyniad penodol ar droseddau casineb. I gyflawni'r amcan hwn, rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb lleol gyda phartneriaid allweddol.

- Mae'r Siop dan yr Unto (OSS) Cam-drin yn y Cartref yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer cyflwyno partneriaeth amlasiantaeth ar gyfer gwasanaethau cam-drin yn y cartref. Yn ystod y flwyddyn gyntaf roedd ar agor (2015-16), cafwyd ychydig dros 5,000 o ymweliadau i ddefnyddio'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae gwaith strategol wedi cynnwys edrych ar effaith bosibl y dyletswyddau yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

- Mae gwaith ar gyflwyno Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn a Heneiddio'n Dda wedi cynnwys datblygu Cynllun Gweithredu Dinas Iach, Heneiddio'n Dda a Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn gan y Bwrdd Dinas Iach a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe. Aeth bron 300 o bobl i ddigwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU, a chynhaliwyd cyfarfod gan y Rhwydwaith 50+ hefyd.

**Datblygu Cynaliadwy**
Mae Dinas a Sir Abertawe yn ymrwymedig i ddatblygu a chefnogi cymuned sydd wedi'i seilio ar ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r cyngor yn diffinio datblygiad cynaliadwy fel a ganlyn: ***"Datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".***

Mabwysiadwyd datblygu cynaliadwy fel egwyddor trefnu ganolog y cyngor sy'n ategu cynllunio a darparu gwasanaethau.

Ym mis Ebrill 2015, rhoddwyd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* ar waith gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mabwysiadwyd y ddeddf yn gynnar gan Ddinas a Sir Abertawe sy'n golygu ei fod wedi ymgymryd â gwaith o'i wirfodd i integreiddio egwyddorion llywodraethu cynaliadwy ymhellach ac adrodd ar sut maent yn cael eu gwreiddio yn ei weithrediadau. O fis Ebrill 2016, mae'r cyngor wedi bod yn atebol i'r ddyletswydd lles i gyflwyno Datblygu Cynaliadwy. Lluniwyd Bwrdd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol i gydlynu'r Ddeddf a deddfwriaeth lywodraethu allweddol arall drwy'r holl sefydliad.

Am y pum mlynedd diwethaf, mae'r cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad Datblygu Cynaliadwy sy'n darparu mesur gwirioneddol o effeithiolrwydd Polisi Datblygu Cynaliadwy y cyngor. Yn y dyfodol, bydd gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn integreiddio datblygu cynaliadwy yn y Cynllun Corfforaethol. Yn 2015/16, roedd perfformiad cyffredinol yn erbyn bron pob un o'r saith maes blaenoriaeth allweddol wedi gwella. Arhosodd Maes Blaenoriaeth yr Amgylchedd Naturiol yn ddigyfnewid o ran cyfeiriad cynnydd.

Mae uchafbwyntiau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon ar draws holl gwmpasau ôl-troed carbon yr awdurdod, y ganran gynyddol o wariant ar gyflenwyr lleol sydd o

fudd i economi Abertawe, defnydd ehangach o gymalau budd cymdeithasol a nifer uwch o ysgolion yn ennill gwobrau Baner Werdd Ysgolion Eco.

Mae meysydd ar gyfer 2016/17 lle cynllunnir camau gweithredu gwella yn cynnwys ffocws ar ailgylchu yn swyddfeydd y cyngor, mwy o ymdrech i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch gweithwyr a darparu hyfforddiant bioamrywiaeth yn ehangach.

Ceir mwy o wybodaeth yn:
http://www.abertawe.gov.uk/adroddarddatblygucynaliadwy

**Ymagwedd gorfforaethol a phenodol at waith gwella**
Mae'r cyngor wedi datblygu ymagwedd bwrpasol a chorfforaethol at wella perfformiad mewn meysydd lle mae angen gwelliant sylweddol. Cafodd yr ymagwedd ei datblygu fel rhan o ymateb llwyddiannus y cyngor i welliannau a oedd yn ofynnol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Mae'n cynnwys sefydlu bwrdd gwella corfforaethol o dan arweiniad y Prif Weithredwr ac aelodau perthnasol o'r uwch-dîm rheoli gyda chefnogaeth arbenigedd ar draws y cyngor. Mae hyn yn darparu llywodraethu, rheolaeth a goruchwyliaeth gweithredol i'r gwaith gwella.

Yn cydredeg â'r bwrdd gwella corfforaethol y mae bwrdd arweinyddiaeth wleidyddol o dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor a daw'r aelodau o blith aelodau'r Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau/craffu perthnasol yn ogystal ag uwch-reolwyr a swyddogion corfforaethol. Mae'r bwrdd hwn yn darparu arweinyddiaeth wleidyddol a llywio i ymateb y cyngor i'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy.

Bydd tîm prosiect o dan arweiniad y gwasanaeth perthnasol yn rhoi cynllun gweithredu er gwella cytunedig ar waith gyda chefnogaeth gorfforaethol, a fydd fel arfer yn canolbwyntio ar berfformiad, ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid a chymharu gwasanaethau â gweddill Cymru ac ar draws y DU.

Mae'r Bwrdd Craffu perthnasol hefyd yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i roi her i benderfyniadau gweithredol sy'n ymwneud ag ymateb y cyngor i wella.

Bydd y gwaith gwella fel arfer yn dod i ben gydag adroddiad i'r cyngor sy'n rhestru argymhellion er gwella.

Defnyddiodd y cyngor yr ymagwedd hon i ymateb i argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch trefniadau Pwyllgorau Cynllunio'r cyngor ac, yn fwy diweddar, i ymateb i argymhellion Estyn o ganlyniad i'w harolygiaeth o'r Awdurdod Addysg Lleol yn 2013.

*Cymheiriaid yn adolygu*

Darparodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) adolygiad cymheiriaid ar gyfer y cyngor yn ystod hydref 2014 cyn Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ystod adolygiadau cymheiriaid, mae CLILC yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' sy'n deall heriau rheoli awdurdod lleol ac sy'n gallu gwneud cyfraniadau gonest a diduedd i ymagwedd y cyngor at hunanwelliant. Ystyrir bod gofyn am adolygiad cymheiriaid yn arwydd o ymrwymiad i wella, a nododd CLILC fod yr ymagwedd hon yn cael ei hatgyfnerthu gan frwdfrydedd Abertawe am ddysgu a'i hagwedd agored at syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio.

Roedd gan y cyngor sawl rheswm dros gomisiynu'r adolygiad:

- Dysgu o eraill a gwella'r hyn rydym yn ei wneud
- Datblygu ein hymagwedd at hunanwerthuso
- Cynorthwyo yn ein paratoadau ar gyfer asesiad corfforaethol SAC yn ystod mis Tachwedd 2014
- Cefnogi amcan cyffredinol hunanreoleiddio a gwelliant yng Nghymru a arweinir gan sectorau

Mae cynllun gweithredu ar waith i ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y tîm adolygu cymheiriaid.

*Asesiad Corfforaethol SAC*

Mae pob cyngor yng Nghymru yn cael 'gwiriad iechyd corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru bob pedair blynedd. Yr enw am hyn yw Adroddiad Asesiad Corfforaethol.

Nod yr Asesiad Corfforaethol oedd ateb y cwestiwn canlynol:

> *“A all y cyngor gyflwyno'i flaenoriaethau a'i ganlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion?”*

Mae adroddiad asesiad corfforaethol y cyngor yn dda iawn o'i gymharu ag asesiadau corfforaethol eraill a gynhaliwyd ar draws Cymru. Daeth SAC i'r casgliadau canlynol:

- *Mae gan y cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gwireddu.*
- *Yn gyffredinol mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ac mae'n gwella mynediad i wybodaeth am ei weithgaredd craffu.*
- *Bydd mabwysiadu system “cerdyn sgorio” ar gyfer adrodd am berfformiad yn rhoi dull mwy effeithiol i'r cyngor o werthuso a rheoli perfformiad.*

- *Mae gan y cyngor hanes profedig cryf o reoli ei gyllideb ac mae wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer rheoli'r heriau ariannol sy'n ei wynebu yn y dyfodol.*
- *Mae'r Strategaeth Adnoddau Dynol yn fframwaith ar gyfer rheoli pobl ond ni chaiff ei dilyn yn gyson ar lefel gwasanaethau.*
- *Caiff trefniadau rheoli asedau eu halinio â chyflwyno Strategaeth Newid y cyngor ond nid yw cynlluniau busnes gwasanaethau'n cynnwys ymrwymiadau a gofynion asedau eiddo'n gyson.*

Mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â chynigion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r argymhellion a ddaeth o'r adolygiad cymheiriaid; caiff y cynllun gweithredu hwn ei ddiwygio a'i ddiweddaru yn ystod 2016/17.

*Adolygiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru i'r Asesiad Corfforaethol - Rheoli Perfformiad*

Daeth adolygiad dilynol gan SAC i drefniadau rheoli perfformiad y cyngor ym mis Gorffennaf 2016 i'r casgliad bod:

***"Dinas a Sir Abertawe'n gwneud cynnydd amlwg wrth ddatblygu ei drefniadau rheoli perfformiad ac yn deall yr hyn y mae angen ei wneud i wella ei ragolygon am fwy o welliant".***

*Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad AGGCC*

Yn ei Adolygiad Blynyddol a'i Werthusiad o Berfformiad 2014/15 ym mis Hydref 2015, daeth AGGCC i'r casgliad canlynol: **mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn wrth foderneiddio ei wasanaethau a bod mewn sefyllfa gref yn seiliedig ar ei gynnydd yn erbyn meysydd i'w gwella.**

*Gwerthusiad perfformiad Estyn*


Mae perfformiad yn y **Cyfnod Sylfaen wedi gwella'n gryf.** Mae perfformiad yn y **Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi gwella'n gyflym. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad ar Drothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg wedi gwella'n gryf.** Mae perfformiad yn y **dangosydd sgôr wedi'i chapio wedi gwella'n dda.** Yn 2015, roedd cyfran y **disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* neu A yn TGAU neu gymhwyster cyfwerth yn uwch na chyfartaledd Cymru.** Mae perfformiad gan **ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwella ar draws yr holl brif ddangosyddion. Mae presenoldeb wedi gwella'n dda ac mae bellach yn unol â chyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.**


## Crynodeb o'n perfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol 2015/16

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan amlygu meysydd lle gwelwyd newidiadau nodedig yn lefel gyffredinol perfformiad. O ganlyniad i hyn, mae'n bosib cymharu perfformiad y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar draws y gwasanaethau hyn. Mae'r adran hon yn crynhoi ein perfformiad yn 2015/16 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Perfformiad *Lleol* o'i Gymharu â'r Flwyddyn Ariannol**
Yn 2015/16, casglwyd 41 o ddangosyddion perfformiad a'u cyhoeddi'n genedlaethol. O'r 41 o ddangosyddion, mae data gan 38 ohonynt y gellir ei gymharu yn erbyn perfformiad 2014/15:

- roedd 15 wedi gwella, neu wedi aros ar 100%;
- arhosodd 3 yn ddigyfnewid; a
- gwelwyd gostyngiad yn 20 ohonynt.






| | Gwella | Dirywio | Sefydlog |
|---|---|---|---|
| **15/16** | **39.47%** | **52.63%** | **7.89%** |
| **14/15** | **51.22%** | **31.71%** | **17.07%** |
| **13/14** | **68.20%** | **31.80%** | **0.00%** |
| **12/13** | **74.40%** | **23.10%** | **2.60%** |

Isod ceir crynodeb o ganlyniadau cenedlaethol 2015/16 o'u cymharu â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru ar gyfer 2015/16. Maent wedi'u rhannu yn ôl safle Abertawe ym mhob un o'r pedwar chwartel.

Tabl A

| Cyfarwyddiaeth | Brig | Ail | Trydydd | Gwaelod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl* | 3 | 5 | 9 | 8 | 25 |
| Lleoedd | 4 | 3 | 3 | 3 | 13 |
| Corfforaethol | | | 1 | | 1 |
| **Cyfansymiau** | **7** | **8** | **13** | **11** | 39 |

*Ni ddadansoddwyd 2 fesur oherwydd nad oes modd cymharu'r data

Tabl B

| Cyfarwyddiaeth | Gwella | Dirywio | Sefydlog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pobl* | 26% | 32% | 8% | 66% |
| Lleoliad* | 13% | 18% | | 32% |
| Corfforaethol | | 3% | | 3% |
| **Cyfansymiau** | **39%** | **53%** | **8%** | **100%** |

*Ni ddadansoddwyd 3 mesur oherwydd nad oes modd cymharu'r data

Sylwer: Mae rhestr lawn o Fesurau Cenedlaethol Cymaradwy yn http://www.mylocalcouncil.info/. Mae canlyniadau perfformiad lleol y cyngor ar gyfer 2015/16 ar gael yn http://www.abertawe.gov.uk/AdolygiadPerfformiadBlynyddol

**Ble i gael mwy o wybodaeth**

Lluniwyd y ddogfen hon gan y Gwasanaeth Cyflawni a Gwybodaeth ar ran y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â ni drwy: e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 63685252. Gellir gweld Cynllun Corfforaethol 2015-16 drwy ddilyn y weddolen ganlynol:
http://www.abertawe.gov.uk/CynllunGwellaCorfforaethol

*Cynllun Un Abertawe*
Os hoffech wybod mwy am *Gynllun Un Abertawe*, ewch i wefan y Cyngor a dilyn y ddolen ganlynol:
http://www.abertawe.gov.uk/unabertawe

Hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â *Chynllun Un Abertawe*, gallwch gysylltu â'r Tîm Strategaeth Gymunedol trwy
scrutiny@swansea.gov.uk

*Adroddiadau'r Bwrdd Craffu*
http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=36785

*Bwrdd Gwasanaethau Lleol*
Gwefan: http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=11034

*Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*
http://www.abertawe.gov.uk/pey

*Datblygu Cynaliadwy*
http://www.abertawe.gov.uk/datblygucynaliadwy

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - mwy o wybodaeth

*Adroddiadau Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru*
*http://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau?combine=&field_topics_tid_i18n=All&field_sectors_tid_i18n=55&created_1=All&field_area_tid_i18n_1=All&field_reports_tid_i18n=All*

*Adroddiadau Arolygu Estyn*
http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=51&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1099951074.1462868757

*Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)*
*http://cssiw.org.uk/our-reports/?lang=cy*

*My Local Council*
*http://www.mylocalcouncil.info/*